Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 9/2023

Dyddiad Cyhoeddi: 07/02/2023

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

## Adroddiad Gwerthuso Crynodol Terfynol

© Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol: 978-1-80535-340-9

Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Adroddiad Gwerthuso Crynodol Terfynol

Einir Burrowes, Dateb/OB3
Duncan Holtom, Pobl a Gwaith
Nia Bryer, OB3

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

Contents

**Rhestr o'r tablau** ........ 3
**Rhestr o'r ffigurau** ........ 4
**Geirfa** ........ 5
**1. Cyflwyniad** ........ **6**
Cyflwyniad i PaCE ........ 6
Camau'r gwerthusiad ........ 6
Strwythur yr adroddiad hwn ........ 8
**2. Methodoleg** ........ **9**
Cyflwyniad ........ 9
Y gweithgareddau a gyflawnwyd ........ 9
Ymchwil Desg ........ 10
Cyfweliadau â rhanddeiliad ........ 11
Gwaith maes gyda chyfranogwyr ........ 11
Y dull a ddefnyddiwyd i asesu'r gwahaniaeth a wnaed gan PaCE ........ 12
**3. Yr Amgylchedd Polisi Cyfredol a Newidiadau ers Lansio PaCE** ........ **14**
Cyflwyniad ........ 14
Diwygio Budd-daliadau'r DU ........ 14
Trechu Tlodi ........ 15
Polisi Cyflogadwyedd ........ 17
Polisi Gofal Plant ........ 19
**4. Myfyrdodau ar Sut y Cyflawnwyd y Rhaglen PaCE** ........ **24**
Cyflwyniad ........ 24
Cyflwyniad i PaCE ........ 24
Myfyrdodau ar sut y cyflawnwyd y rhaglen PaCE ........ 26
Atgyfeiriadau i PaCE ........ 26
Cymorth gan gynghorwyr – asesu a mentora ........ 28
Cymorth cyflogadwyedd ........ 29
**5. I ba raddau y mae PaCE wedi cyflawni'r deilliannau disgwyliedig** ........ **35**
Cyflwyniad ........ 35
Y deilliannau a gyflawnwyd ........ 35
Deilliannau swyddi ........ 35
Cymwysterau a/neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd ........ 38
Deilliannau addysg neu hyfforddiant ........ 39
Themâu Trawsbynciol ........ 40

Effaith PaCE .... 41
Cyflogaeth uwch ymysg rhieni .... 42
Incwm aelwydydd uwch .... 42
Llai o aelwydydd mewn tlodi .... 43
Gwell iechyd ymysg rhieni .... 43
Mwy yn manteisio ar ofal plant ffurfiol .... 44
Deilliannau datblygiadol gwell i blant .... 44
Rhagor o blant yn dechrau'r ysgol gan feddu ar y sgiliau angenrheidiol. .... 44
**6 Cywirdeb y Ddamcaniaeth Newid sy'n Sail i PaCE .... 45**
Cyflwyniad i Ddamcaniaeth Newid PaCE .... 45
Cywirdeb y rhagdybiaethau a fu'n sail i ddyluniad PaCE. .... 45
**7 Casgliadau .... 56**
Cyflwyniad .... 56
Effeithiau PaCE .... 56
Maes polisi sy'n esblygu .... 57
Pwyntiau dysgu allweddol yn sgil gweithredu PaCE .... 58
Elfennau hanfodol cymorth cyflogaeth i rieni .... 58
Cymhellion rhieni .... 59
Cymhlethdod a chost gofal plant fel rhwystr i gyflogaeth .... 60
Oriau a weithiwyd .... 61
Cymwysterau .... 61
Gwirfoddoli .... 62
Cymorth yn y gwaith .... 62
Systemau monitro'r rhaglen .... 63
Cymorth integredig .... 63
Caffael hyfforddiant .... 64
**Atodiad 1: Dangosyddion ar Lefel Achos a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .... 66**
**Atodiad 2: Enghreifftiau Cryno o Wybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru o'r Ffyrdd yr Aethpwyd i'r Afael â Dangosyddion Lefel Achos y Themâu Trawsbynciol .... 67**

**Llyfryddiaeth**

**Rhestr o'r tablau**


| | |
|---|---|
| Tabl 2.1 | Y dull a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad |
| Tabl 2.2 | Amseriad cyfweliadau hydredol â chyfranogwyr |
| Tabl 6.1 | Asesiad o Gywirdeb y Rhagdybiaethau yn y Ddamcaniaeth Newid |

## Rhestr o'r ffigurau


| | |
|---|---|
| Ffigur 4.1 | Model cyflawni arfaethedig PaCE |
| Ffigur 6.1 | Damcaniaeth Newid PaCE |

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| APS | Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth |
| C-CAS | Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| CV | Curriculum Vitae |
| DBS | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESOL | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| FfCChC | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| LFS | Arolwg o'r Llafurlu |
| NEET | Heb fod mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| SIA | Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2018, penododd Llywodraeth Cymru OB3, Dateb a'r Uned Pobl a Gwaith i gynnal gwerthusiad o'i rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE).

## Cyflwyniad i PaCE

1.2 Ymyrraeth marchnad lafur a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen PaCE sydd wedi'i bwriadu i drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Ei nod yw darparu cymorth unigol i rieni di-waith sy'n ystyried mai gofal plant yw eu prif rwystr rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Yn fwy penodol, mae PaCE wedi'i thargedu at rieni economaidd anweithgar 25 oed a throsodd a rhieni ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

1.3 Lansiwyd y Rhaglen ym mis Gorffennaf 2015, a bwriadwyd iddi barhau tan o leiaf fis Mawrth 2018. Ers hynny, fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi cael ei hymestyn tan fis Mawrth 2020 i ddechrau ac yn fwy diweddar tan fis Hydref 2023. Mae'r estyniadau hyn i'r rhaglen wedi'u cysylltu â chynnydd yn y gyllideb sydd ar gael a newidiadau i dargedau allweddol, yn enwedig o ran nifer y cysylltiadau a'r deilliannau swyddi i'w cyflawni.

1.4 Ariennir y rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)[1] ac mae ganddi gyllideb gyffredinol ddiwygiedig o £24.6 miliwn.

## Camau'r gwerthusiad

1.5 Mewn adroddiad gwerthuso cychwynnol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016[2], gosodwyd y cyd-destun ar gyfer y rhaglen, y Ddamcaniaeth Newid sy'n

---

[1] Ariennir PaCE o dan ddwy flaenoriaeth ESF ar wahân:

- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl gywir, mae PaCE yn ceisio mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru ac Amcan Penodol 1.2 o fewn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd ill dau yn anelu at '[g]ynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n economaidd anweithgar ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir sy'n 25 oed a hŷn sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'
- Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth pobl ifanc' yn Rhaglen Dwyrain Cymru a 'chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc' yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn fwy penodol, mae PaCE yn ceisio mynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 yn y ddwy raglen, sy'n ceisio 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)'.

[2] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso'r broses

sail i PaCE a thrafodwyd y canfyddiadau cynnar mewn perthynas â phrosesau'r rhaglen a phrofiadau cyfranogwyr o PaCE.

1.6 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso cychwynnol hwn, comisiynwyd gwerthusiad mwy cynhwysfawr, pedwar cam, gyda chyfres o adroddiadau'n cael eu cyhoeddi dros gyfnod o bedair blynedd.

1.7 Cyhoeddwyd adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn ym mis Rhagfyr 2018 (Cam 1)[3]. Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried y ffordd yr oedd y rhaglen wedi'i strwythuro, yn trafod proffil y cyfranogwyr a ymunodd â hi (gan gynnwys y rhwystrau i waith yr oeddent yn eu hwynebu), yn disgrifio teithiau'r cyfranogwyr drwy'r rhaglen PaCE ac yn ystyried deilliannau'r rhaglen a oedd yn dod i'r amlwg bryd hynny.

1.8 Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso Profiadau a Deilliannau ym mis Mawrth 2020[4] (Cam 2), yn edrych yn fanylach ar brofiadau cyfranogwyr o PaCE a'r gwahaniaethau a welsant yn sgil cymryd rhan yn y rhaglen. Amlygodd yr adroddiad hefyd wersi i lywio darpariaeth ac ymarfer yn y dyfodol.

1.9 Dilynwyd hyn yn 022 gan adroddiad gwerthuso ar Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian[5] (Cam 3), a edrychodd ar i ba raddau yr oedd y rhaglen PaCE wedi cyrraedd ei thargedau gan roi cipolwg ar yr ychwanegolrwydd a'r di-fuddiant sydd ynghlwm wrth y rhaglen. Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried gwerth am arian, gan feincnodi costau'r cysylltiadau a mesurau deilliannau allweddol o gymharu â rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

1.10 Bwriad yr adroddiad hwn (Cam 4) yw dwyn ynghyd ganfyddiadau camau cynharach y gwerthusiad. Nodau penodol cam olaf y rhaglen werthuso yw:

- darparu gwerthusiad crynodol o PaCE
- ystyried cywirdeb y Ddamcaniaeth Newid sy'n sail i'r rhaglen
- ystyried a yw ymyriadau fel PaCE yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun hinsawdd polisi 2022.

[3] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso ar y broses a'r allbynnau

[4] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: profiadau a deilliannau

[5] Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso ar Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.11 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn saith pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: methodoleg
- pennod tri: adolygiad o'r amgylchedd polisi presennol a newidiadau cyd-destunol allweddol ers lansio PaCE
- pennod pedwar: myfyrdodau ar sut y cyflawnwyd y rhaglen
- pennod pump: i ba raddau y mae PaCE wedi cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig
- pennod chwech: cywirdeb y Ddamcaniaeth Newid
- pennod saith: casgliadau ac ystyriaeth o'r angen parhaus am ymyrraeth fel PaCE.

## 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod y gwerthusiad pedwar cam hwn o PaCE. Fe’i cyflwynir mewn pum adran fel a ganlyn:

- crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod pob cam o'r gwaith
- disgrifiad o'r ymchwil desg a wnaed
- adroddiad o waith maes a wnaed gyda rhanddeiliaid
- disgrifiad o'r ymchwil hydredol a wnaed gyda chyfranogwyr
- trafodaeth ar y dull a ddefnyddiwyd i asesu'r gwahaniaeth a wnaed gan PaCE.

### Y gweithgareddau a gyflawnwyd

2.2 Fel y nodwyd yn flaenorol, cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn mewn pedwar cam rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mai 2022. Dangosir y tasgau ym mhob un o'r pedwar cam yn Nhabl 1.1 isod, gan driongli tystiolaeth yn deillio o’r tasgau hyn er mwyn llunio'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.[6].

[6] Mae adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod camau cynharach y gwerthusiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion.

Tabl 2.1: Y dull a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad

| | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad desg o'r cyd-destun polisi ehangach | ✓ | | | ✓ |
| Cyfweliadau â rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â dylunio a rheoli PaCE | ✓ | | | ✓ |
| Cyfweliadau â staff o sefydliadau partner/ atgyfeirio | ✓ | | | |
| Cyfweliadau â chynghorwyr PaCE | ✓ | | | |
| Gwaith maes gyda chyfranogwyr | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Codio data a llunio cronfa ddata o gyfranogwyr a gyfwelwyd | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Dadansoddiad o gronfa ddata'r rhaglen | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Dadansoddiad amlamryweb o gronfa ddata'r rhaglen | | | ✓ | |
| Dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) a'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) | | | ✓ | |
| Paratoi adroddiadau llawn a chryno a chytuno arnynt gyda'r cleient | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Ymchwil Desg**

2.3 Cynhaliwyd ymchwil desg yn 2018 i osod y cyd-destun ar gyfer PaCE a chreu darlun o'r ffordd yr oedd y rhaglen yn cael ei gweithredu. Roedd yr ymchwil desg yn cynnwys adolygiad o ddogfennau polisi perthnasol, adroddiad gwerthuso cychwynnol a gyhoeddwyd yn 2016, cynlluniau busnes, canllawiau rhaglen, adroddiadau gwybodaeth reoli ac ystod o ddogfennau ategol eraill. Roedd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r gronfa ddata o gyfranogwyr y rhaglen.

2.4 Dadansoddwyd y gronfa ddata o gyfranogwyr eto yn 2019 a 2021 i roi darlun cyfredol o berfformiad y rhaglen.

2.5 Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r amgylchedd polisi yn 2022 i gofnodi newidiadau i'r cyd-destun y mae PaCE yn gweithredu ynddo ac i lywio'r gwaith o ystyried anghenion y dyfodol.

### Cyfweliadau â rhanddeiliad

2.6 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a fu'n ymwneud â dylunio a rheoli'r rhaglen. Cyfwelwyd â deg cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a DWP wyneb yn wyneb yn 2018 a chyfwelwyd â phedwar dros Teams yn 2022.

2.7 Yn 2018, cynhaliwyd cyfweliadau ag unigolion sy'n ymwneud â rheoli a/neu ddarparu gwasanaethau i deuluoedd (e.e., staff Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg) ar draws pob ardal awdurdod lleol a wasanaethir gan PaCE[7]. Cyfwelwyd â 12 o unigolion wyneb yn wyneb a chyfwelwyd ag 17 arall dros y ffôn[8].

2.8 Cynhaliwyd trafodaethau am weithrediad y rhaglen mewn ardaloedd penodol gyda chynghorwyr PaCE yn 2018, 24 wyneb yn wyneb drwy gyfweliadau grŵp neu gyfweliadau unigol a 15 arall dros y ffôn.

### Gwaith maes gyda chyfranogwyr

2.9 Roedd ein gwaith maes gyda chyfranogwyr yn cynnwys cynnal cyfweliadau manwl gyda sampl o unigolion a oedd wedi cymryd rhan yn PaCE. Roedd hyn yn cynnwys elfen hydredol er mwyn cofnodi teithiau'r cyfranogwyr i ymuno â PaCE a'u hynt drwy gydol y rhaglen a chael dealltwriaeth o effeithiau'r rhaglen arnynt. Cyfwelwyd â dwy 'garfan' o gyfranogwyr, fel y dangosir yn Nhabl 2.2 isod. Roedd y garfan gyntaf o gyfranogwyr y cyfwelwyd â nhw wedi ymuno â PaCE rhwng 2015 a 2017 ac roedd yr ail garfan yn cynnwys unigolion a ymunodd â PaCE yn ystod 2018.

[7] Nid yw'r rhaglen yn cael ei chynnal mewn dwy ardal awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, oherwydd mae Cymunedau am Waith yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o wardiau yn yr ardaloedd hynny. Gall unigolion sy'n byw y tu allan i wardiau Cymunedau am Waith yn yr ardaloedd awdurdodau lleol hynny fanteisio ar wasanaethau PaCE a ddarperir gan gynghorwyr sy'n gweithio mewn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos.

[8] Cyfwelwyd â mwy nag un cynrychiolydd mewn rhai ardaloedd

**Tabl 2.2: Amseriad cyfweliadau hydredol â chyfranogwyr**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Y cyfweliadau cyntaf â charfan 1 | 83[9] | | | |
| Y cyfweliadau cyntaf â charfan 2 | | 44 | | |
| Yr ail gyfweliadau â charfan 1 | | 45[10] | | |
| Yr ail gyfweliadau â charfan 2 | | | | 22 |
| Y drydedd set o gyfweliadau â charfan 1 | | | | 20 |

2.10 Cynhaliwyd ein cyfweliadau cyntaf â chyfranogwyr wyneb yn wyneb a chynhaliwyd cyfweliadau dilynol dros y ffôn. Roedd ein gwaith maes gyda'r garfan gyntaf o gyfranogwyr (yn 2018) hefyd yn cynnwys adolygu sampl o bortffolios cyfranogwyr a thrafodaethau gyda chynghorwyr y cyfranogwyr unigol.

2.11 Cafodd gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ein cyfweliadau â chyfranogwyr ei dadansoddi, ei chodio a'i chofnodi ar gronfa ddata o gyfranogwyr a gyfwelwyd.

**Y dull a ddefnyddiwyd i asesu'r gwahaniaeth a wnaed gan PaCE**

2.12 Yn wreiddiol, ein bwriad oedd cynnal gwerthusiad effaith gwrthffeithiol, gan ddefnyddio technegau paru ystadegol i baru manylion cyfranogwyr PaCE a gofnodwyd yn yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF â phobl debyg o'r APS a'r LFS. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar ddisgwyliad y byddai 1,067 o gyfranogwyr PaCE ar gael i gymryd rhan yn yr arolwg yn 2018 a mwy yn ystod tonnau dilynol Arolwg o Gyfranogwyr ESF. Fodd bynnag, dim ond 184 o gyfranogwyr PaCE a ymatebodd i donau olynol Arolwg o Gyfranogwyr ESF, ac nid oedd y nifer hwn yn ddigon i fwrw ymlaen â'r dull a gynigiwyd yn wreiddiol.

2.13 O ystyried y cyfyngiadau hyn, seiliwyd ein hasesiad o'r sefyllfa wrthffeithiol debygol ar ddadansoddiad o ddata APS ac LFS i ddeall llwybrau cyflogaeth unigolion economaidd anweithgar â phlant dibynnol yng Nghymru ac mewn

[9] Y bwriad oedd cyfweld ag 80 o gyfranogwyr

[10] Y bwriad oedd cyfweld â 40 o unigolion

mannau eraill yn y DU, er mwyn darparu meincnodau i gymharu sut yr oedd cyfranogwyr PaCE yn symud i mewn i waith.

2.14 Cynhaliwyd dadansoddiad amlamrywedd o ddata gweinyddol hefyd i'n galluogi ystyried ar yr un pryd effaith nodweddion gwahanol ar y tebygolrwydd y byddai'r rhai a gefnogir gan PaCE yn symud i mewn i waith ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen.

# 3. Yr Amgylchedd Polisi Cyfredol a Newidiadau ers Lansio PaCE

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg byr o'r cyd-destun polisi y datblygwyd PaCE yn ei erbyn a sut y mae'r cyd-destun hwnnw wedi esblygu yn ystod y broses o weithredu'r rhaglen. Fe’i cyflwynir mewn pedair adran fel a ganlyn:

- datblygiadau polisi sy’n gysylltiedig â diwygio budd-daliadau’r DU
- amcanion polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threchu tlodi
- yr amgylchedd polisi sy'n esblygu mewn perthynas â chyflogadwyedd yng Nghymru
- datblygiadau ynghylch polisi gofal plant, yn enwedig y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru.

## Diwygio Budd-daliadau'r DU

3.2 Mae polisïau'r DU mewn perthynas â lles ac ysgogi’r farchnad lafur wedi newid dros y degawd neu fwy diwethaf, gan roi pwyslais cynyddol ar atal pobl rhag dod yn ddi-waith am gyfnod hir. Mae hyn wedi cynnwys symud rhieni unigol (yr ystyrir eu bod mewn mwy o berygl o ddod yn ddi-waith am gyfnod hir) o fudd-daliadau lles diamod[11] i fudd-daliadau diweithdra amodol[12] pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd oedran penodol.

3.3 Yn **Neddf Diwygio Lles 2012** cyhoeddwyd y newid i'r Credyd Cynhwysol, budd-dal prawf modd sengl newydd ar gyfer y rhai sy'n gweithio a'r di-waith. Disodlodd y Credyd Cynhwysol chwe budd-dal presennol[13] a'i nod yw annog hawlwyr budd-daliadau i gael gwaith cyflogedig neu gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio, a'i gwneud yn haws i bobl ymdopi â symud i mewn i waith. Dechreuodd hawlwyr budd-daliadau presennol gael eu trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol yn 2014 ac mae’r broses hon yn parhau. Yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, dilëwyd y cyfyngiad ar nifer yr oriau y gallai hawlwyr Lwfans

[11] Cymhorthdal Incwm yn bennaf
[12] Lwfans Ceisio Gwaith yn benodol
[13] Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Cyflogaeth a Lwfans Cynnal, Budd-dal Tai

Ceisio Gwaith eu gweithio, gan ganiatáu i'r rhai sy'n trosglwyddo barhau i hawlio Credyd Cynhwysol os ydynt yn gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos.

3.4 Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn i fudd-daliadau, mae'r Adran Gwaith a hensiynau wedi cyflwyno amrywiol raglenni 'o fudd-dal i waith' newydd ers lansio PaCE. Lansiwyd y **Rhaglen Waith ac Iechyd** ym mis Rhagfyr 2017, gan ddisodli’r Rhaglen Waith gynharach. Rhaglen wirfoddol sy'n darparu cymorth personol i helpu unigolion i nodi eu hanghenion cyflogaeth, dod o hyd i gyflogaeth hirdymor, cael mynediad at hyfforddiant i'w helpu i ddod o hyd i waith a rheoli problemau iechyd er mwyn lleihau eu heffaith ar waith yw'r Rhaglen Waith ac Iechyd. Mae wedi'i anelu'n bennaf at bobl sydd wedi bod yn hawlio budd-daliadau diweithdra ers 24 mis neu fwy yn hytrach na phobl sy'n economaidd anweithgar (e.e., y rhai sy'n gofalu am blant).

3.5 Lansiwyd cynllun cymorth cyflogaeth newydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, o'r enw **Ailgychwyn**, yn 2021, gyda’r bwriad y bydd atgyfeiriadau’n cael eu gwneud dros gyfnod o dair blynedd. Ei nod yw chwalu'r rhwystrau i gyflogaeth a allai fod yn atal pobl rhag dod o hyd i waith. Cymorth cyflogaeth dwys, gorfodol ar raddfa fawr yw hwn ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol, a anelwyd yn wreiddiol at unigolion a oedd wedi bod yn ddi-waith ers 12-18 mis, ond yn fwy diweddar mae wedi bod ar gael i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am naw mis, heb unrhyw derfyn uchaf. Mae ar ffurf rhaglen bersonol a hyblyg sy’n gallu darparu hyd at 12 mis o gymorth wedi’i deilwra i unigolion ac mae'n gallu addasu i amodau cenedlaethol a lleol cyfnewidiol.

**Trechu Tlodi**

3.6 Er bod polisi lles (a ddarperir drwy’r Adran Gwaith a Phensiynau) yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, mae Llywodraethau olynol Cymru wedi datgan yn glir y bydd pwerau datganoledig yn cael eu defnyddio i fynd i’r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd ac i drechu tlodi mewn gwaith.

3.7 Roedd **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** (2012) Llywodraeth Cymru yn cynnwys camau gweithredu i helpu pobl i gael gwaith ac yn cydnabod Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Twf Swyddi Cymru fel mecanweithiau allweddol i gyflawni ei ddeilliannau. Cynlluniwyd PaCE i

adeiladu ar seilwaith y rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg er mwyn helpu i leihau nifer yr aelwydydd heb waith.

3.8 Roedd **Strategaeth Tlodi Plant Cymru** a gyhoeddwyd yn 2015 hefyd yn anelu at:

- leihau nifer yr aelwydydd heb waith
- cynyddu sgiliau rhieni sy'n byw mewn cartrefi incwm isel fel y gallant gael swyddi sy'n talu'n dda a symud ymlaen mewn gwaith
- lleihau anghydraddoldebau mewn perthynas â deilliannau iechyd, addysg ac economaidd i blant a theuluoedd.

3.9 Mae adroddiad cynnydd 2019[14] yn tynnu sylw at PaCE yn benodol fel rhaglen sy'n cyfrannu at yr amcan o gefnogi pobl i gael swyddi boddhaol, gan gydnabod hefyd bod lefelau tlodi plant yng Nghymru wedi aros yn uchel.

3.10 Cafodd pandemig y coronafeirws effaith fawr ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn ystod 2020 a 2021, a datblygodd Llywodraeth Cymru y cynllun **Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm** ar gyfer y cyfnod hwnnw. Roedd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys cyfres o gamau ymarferol gyda'r nod o helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru i wneud y gorau o'u hincwm a darparu cymorth i'w helpu i feithrin cadernid ariannol. Roedd y cynllun yn hybu ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau a'r cymorth ariannol sydd ar gael ac yn darparu gwasanaethau cynghori ychwanegol i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o fod mewn tlodi er mwyn eu helpu i hawlio'r holl fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt.

3.11 Mae'r rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** yn darparu cymorth i deuluoedd a chymunedau difreintiedig ledled Cymru a'i nod yw lleihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion cymhleth y mae angen ymyriadau dwys neu gostus arnynt[15]. Mae cefnogi pobl i symud ymlaen i waith ac o fewn gwaith yn un o bedwar deilliant y rhaglen. Caiff y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ei gweinyddu gan awdurdodau lleol a gall helpu gyda chydlynu cymorth gan wahanol asiantaethau a chynghori ar brosiectau penodol a all helpu i fynd i'r afael ag anghenion penodol teuluoedd. Anogir awdurdodau lleol i integreiddio

---

[14] Strategaeth tlodi plant: adroddiad cynnydd 2019

[15] Canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf

darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf â rhaglenni ategol eraill ac i gysylltu â mentrau sy’n darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth i bobl ifanc[16].

**Polisi Cyflogadwyedd**

3.12 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Cyflogadwyedd** yn 2018, ochr yn ochr â chynllun gweithredu deng mlynedd a osododd dargedau uchelgeisiol yn ymwneud â diweithdra, anweithgarwch economaidd, a lefelau sgiliau.

3.13 Mae’r Cynllun yn cydnabod, er gwaethaf y cyfraddau cyflogaeth uchel yng Nghymru, bod amrywiadau daearyddol o ran y cyfleoedd sydd ar gael a bod rhai grwpiau, gan gynnwys menywod, grwpiau ethnig a phobl anabl yn parhau i brofi deilliannau gwaelach o ran y farchnad lafur.

3.14 Mae’r Cynllun yn ceisio mynd i’r afael â thlodi mewn gwaith sy’n aml i'w briodoli i dangyflogaeth neu swyddi tymor byr, ansicr a swyddi â chyflog isel ac mae’n amlygu’r angen i ystyried rhwystrau i waith, gan gynnwys argaeledd gofal plant o safon.

3.15 Un o themâu allweddol y Cynllun yw darparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn gydag ymrwymiad i ddatblygu atebion pwrpasol i’r rhai sydd â’r angen mwyaf, gan ganolbwyntio’n benodol ar y rhai sy'n economaidd anweithgar a’r rhai sy’n llai tebygol o fod mewn cysylltiad â chymorth cyflogaeth prif ffrwd.

3.16 Ceir ymrwymiad i greu Porth Cyngor Cyflogaeth fel brocer ‘annibynnol’ a strwythur cymorth cyflogadwyedd newydd, o'r enw Cymru’n Gweithio[17], sydd wedi'i anelu at gefnogi'r rhai sy'n ddi-waith, y rhai sy'n economaidd anweithgar ac unigolion dros 16 oed sy'n NEET. Crybwyllir PaCE yn y Cynllun fel rhaglen allweddol o fewn y strwythur cymorth hwn, gan weithio ochr yn ochr â’r Cynnig Gofal Plant, ac ‘ymrwymiad parhaus ... i gynorthwyo teuluoedd sy’n gweithio â gofal plant’ fel bod rhieni’n cael mynediad haws at swyddi ac opsiynau cyflogaeth cynaliadwy.

---

[16] Gwerthusiad cenedlaethol o Deuluoedd yn Gyntaf: adroddiad blwyddyn 3

[17] Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r enw Porth Cyngor Cyflogaeth, a mabwysiadwyd Cymru'n Gweithio yn ei le. Mae Cymru’n Gweithio yn darparu mynediad at gymorth drwy raglenni fel Twf Swyddi Cymru a ReAct

3.17 Mae'r Cynllun yn cydnabod gwerth cydleoli gwasanaethau iechyd a chymorth cyflogadwyedd lleol ac yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru i annog y dull gweithredu hwn er mwyn symleiddio mynediad ac ysgogi atgyfeiriadau.

3.18 Ym mis Mawrth 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun cyflogadwyedd wedi'i ddiweddaru, **Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau**. Mae'n ymateb i flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu drwy ymrwymiad ar y cyd i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl a bod pawb yn gwireddu ei botensial. Mae'r cynllun newydd yn ceisio amlinellu blaenoriaethau polisi clir gyda ffocws cyflawni cliriach er mwyn gadael gwaddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol[18].

3.19 Mae'r Cynllun wedi'i osod yng nghyd-destun y ffaith bod Cymru'n wynebu colli cyllid yr UE a'r adferiad o'r pandemig COVID-19[19].

3.20 Nod y pennawd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd yw 'blaenoriaethu a chyfuno cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru', gan dargedu'r rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd yn y farchnad lafur a'r rhai sy'n ddi-waith oherwydd cyflyrau iechyd hirdymor.

3.21 Yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i:

- cryfhau'r concordat cydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth genedlaethol orau i ddiwallu anghenion y grwpiau blaenoriaeth
- uno rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu model gweithredu sengl newydd o 2023 ymlaen a fydd yn cynnwys ReAct+, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol a Thwf Swyddi Cymru+
- sicrhau bod darpariaeth gofal plant y blynyddoedd cynnar yn cael ei hehangu'n raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed ac ariannu gofal plant i deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith er mwyn iddynt allu paratoi ar gyfer y farchnad lafur, gwella eu sgiliau presennol neu sicrhau cyflogaeth fwy cynaliadwy

[18] Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, tud.4
[19] Ibid, Rhagair

- gosod a monitro targedau amrywiaeth heriol ar bob rhaglen a gwasanaeth cyflogadwyedd er mwyn cynyddu cyfranogiad a deilliannau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd grwpiau blaenoriaeth yn cynnwys pobl ethnig leiafrifol (gan gynnwys mudwyr), pobl anabl, y rhai ag anabledd dysgu, menywod, unig rieni a gofalwyr, pobl ifanc a gweithwyr hŷn[20].

**Polisi Gofal Plant**

3.22 Mapiodd adolygiad o gapasiti gofal plant yng Nghymru yn 2017 y cyflenwad o ofal plant ar y pryd yn erbyn y galw posibl yn y dyfodol a nododd fod angen ymchwil pellach i ddeall ymddygiad rhieni a'r galw gwirioneddol am ofal plant. Roedd yr adroddiad yn cwestiynu a oedd digon o leoedd ar gael i ddarparu Cynnig Gofal Plant yng Nghymru[21].

3.23 Yn **Symud Cymru Ymlaen: rhaglen lywodraethu 2016-21**, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae hefyd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu o leiaf 10 awr o Ddarpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor, mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir a ariennir.

3.24 Argymhellodd yr adolygiad y dylid rhoi statws sector blaenoriaeth i'r sector gofal plant fel rhan o **Gynllun y Gweithlu** Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd lle roedd capasiti gofal plant yn gyfyngedig. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gynllun 10 mlynedd y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar** mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, gyda chymorth ariannol ar gael i ddarparwyr yn ardaloedd peilot y Cynnig Gofal Plant ac i ddarparwyr sydd am ddechrau neu ehangu busnes cyfredol mewn ymateb i'r Cynnig Gofal Plant.

3.25 Yn 2018, amlygodd **adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru** sut yr oedd darparwyr gofal plant yn wynebu 'rhwystrau a risgiau i ehangu', gan gynnwys elw isel a pha mor agored ydynt i ddioddef yn sgil 'newidiadau sydyn

[20] Ibid., tud.27

[21] Capasiti Gofal Plant yng Nghymru: Mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl

o ran rheoleiddio ac ariannu'[22]. Amcangyfrifodd yr adroddiad hefyd fod tuag 20 y cant o'r holl rieni'n teimlo na allant weithio oherwydd cyfrifoldebau gofalu naill ai am nad oedd gofal plant ar gael, neu am na allent ei fforddio. Menywod oedd naw o bob 10 o'r rhieni yr effeithiwyd arnynt[23].

3.26 Lansiwyd y **Cynnig Gofal Plant**[24] yn 2017 mewn saith ardal beilot ac fe'i cyflwynwyd fesul cam ledled Cymru rhwng 2018 a 2019. Gwnaed newidiadau i'r dull o ddarparu'r Cynnig Gofal plant yn sgil dyfodiad COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ond ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau â'r taliadau i ddarparwyr gofal plant o dan y Cynnig, hyd yn oed pan oedd lleoliad ar gau, neu pan nad oedd plentyn yn gallu mynychu oherwydd cyfnod clo. Parhaodd yr ymrwymiad hwn am dri mis, gan ddod i ben ym mis Mehefin 2020[25]. Roedd y rhai a oedd yn gallu manteisio ar y Cynnig cyn mis Mawrth 2020 yn gallu dychwelyd i ofal plant wedi'i ariannu o'r adeg hon ymlaen.

3.27 Cafodd y Cynnig ei atal dros dro i ymgeiswyr newydd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020, ac ailddefnyddiwyd cyllid y Cynnig ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) i dalu costau gofal plant ar gyfer plant cyn oedran ysgol a oedd yn blant i weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed. Ailagorwyd y Cynnig i newydd-ddyfodiaid ym mis Medi 2020.

3.28 Erbyn diwedd 2021, roedd pedwar adroddiad gwerthuso y Cynnig Gofal Plant wedi'u cyhoeddi. Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad diweddaraf yn cynnwys y canlynol:

- mae llawer o ymwybyddiaeth o'r Cynnig, oherwydd iddo gael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar
- creodd COVID-19 heriau i deuluoedd a oedd yn defnyddio Meithrinfa Cyfnod Sylfaen a gofal plant mewn mwy nag un lleoliad gofal plant
- roedd dros hanner y rhieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ennill llai na lefel y cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol amser llawn

---

[22] Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru, tud.7
[23] Ibid, tud.47
[24] Mae'r Cynnig gofal plant ar gael i blant tair a phedair oed y mae eu rhieni'n ennill o leiaf isafswm wythnosol sy'n cyfateb i gyfartaledd o 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol cymwys ac sy'n ennill llai na £100,000 y flwyddyn.
[25] Ibid., tud.16

- er bod 88 y cant eisoes yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig, roedd 45 y cant o'r rhain bellach yn defnyddio mwy o oriau o ofal plant ffurfiol oherwydd y Cynnig
- teimlai rhieni fod y cynnig yn ei gwneud yn haws iddynt wneud eu gwaith (73 y cant); yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran y ffordd yr oeddent yn gweithio (53 y cant); y byddent wedi bod yn gweithio llai o oriau pe na bai'r Cynnig ar gael (30 y cant); a bod y Cynnig wedi rhoi'r potensial iddynt gynyddu eu henillion (46 y cant).

3.29 Mae'r pedwerydd adroddiad gwerthuso yn nodi, er bod llawer o ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymhlith rhieni cymwys, mae eu gwybodaeth am y manylion (o ran sut y mae'n gweithio, pwy sy'n gymwys a'r hyn y mae ganddynt hawl i'w gael) yn parhau i fod yn gymharol brin. Canfu hefyd nad oes gan sefydliadau a rhaglenni sydd hefyd yn gweithio gyda rhieni plant ifanc, gan gynnwys rhieni di-waith, ddigon o wybodaeth am y Cynnig bob tro[26]. Nododd y cynghorwyr PaCE a gyfrannodd at y gwerthusiad eu bod yn ymwybodol o'r Cynnig ond nad oeddent bob amser yn teimlo'n ddigon gwybodus ac nad oeddent bob amser yn teimlo'n hyderus y gallent roi gwybodaeth gywir a chyfredol amdano i rieni. Nododd cynghorwyr PaCE hefyd nad oeddent yn meddwl bod gan y rhieni yr oeddent yn eu cefnogi lawer o wybodaeth am y Cynnig ac yn aml nid oeddent yn ystyried opsiynau gofal plant yn fanwl nes iddynt lwyddo i gael gwaith. Fe wnaethant hefyd ddweud eu bod yn cyfeirio rhieni at wybodaeth ar-lein am y Cynnig ond nad oeddent fel arfer yn rhoi cyswllt uniongyrchol iddynt yn eu hawdurdod lleol a allai ddarparu'r wybodaeth fanwl yr oedd ei hangen arnynt, gan nad oeddent yn gweithio'n ddigon agos gyda thimau'r Cynnig. Roedd cynghorwyr PaCE hefyd o'r farn bod y broses ymgeisio ar gyfer y Cynnig yn rhwystro rhai rhieni rhag gwneud cais[27].

3.30 Mae'r adroddiad yn argymell 'efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ganolbwyntio o'r newydd ar godi ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymhlith sefydliadau partner sy'n gweithredu yn eu hardal, gan gynnwys PaCE a'r

[26] Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 4, tud.10
[27] Ibid., tud.38

Ganolfan Byd Gwaith (JCP), a rhoi iddynt fanylion yn ymwneud â’r Cynnig y gallant eu trosglwyddo i’r rhieni y maent yn eu cefnogi.'[28]

3.31 Mae **Rhaglen Lywodraethu 2021-26** ymrwymo i ariannu gofal plant ar gyfer mwy o rieni mewn addysg a hyfforddiant. Yn dilyn y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru ehangwyd hyn i gynnwys cymorth i'r rhai ar gyrion gwaith. Ar hyn o bryd, er bod elfen addysg gynnar y Cynnig Gofal Plant yn gynnig cyffredinol, dim ond rhieni cymwys sy’n gweithio all fanteisio ar yr elfen gofal plant. O fis Medi 2022 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu’r Cynnig i alluogi rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant hefyd i elwa ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir fel ‘cam cyntaf’ tuag at gyflawni ymrwymiad eu Rhaglen Lywodraethu. I ddechrau, bydd yr ehangu hwn yn canolbwyntio ar rieni sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach. Dros amser, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys carfannau ychwanegol o ddysgwyr gan gynnwys y rhai mewn addysg oedolion, dysgu seiliedig ar waith, dysgu cymunedol a’r rhai sy’n ymgymryd â gweithgaredd dysgu tymor byr, gan gynnwys cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).[29].

3.32 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd £6 miliwn ychwanegol y flwyddyn i gynyddu’r gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant o £4.50 i £5 o fis Ebrill 2022 ac ymrwymodd i adolygu’r gyfradd o leiaf bob tair blynedd wedi hynny mewn ymgais i ddarparu mwy o gynaliadwyedd ar draws y sector gofal plant yng Nghymru.

3.33 Mae ymrwymiad pellach yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed yng Nghymru, a disgwylir cyhoeddiad maes o law ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gyflwyno.

3.34 Rhaglen blynyddoedd cynnar sydd wedi’i hanelu at deuluoedd â phlant o dan bedair oed sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig yw **Dechrau'n Deg** ac mae'n darparu, ymhlith pethau eraill, gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel

---

[28] Ibid., tud.10

[29] Datganiad Ysgrifenedig: Ehangu Cynnig Gofal Plant Cymru, 2 Mawrth 2022 [fel: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ehangu-cynnig-gofal-plant-cymru]

am ddim i blant 2-3 oed. Bwriad PaCE oedd adeiladu ar seilwaith Dechrau'n Deg, lle roedd ar gael.

3.35 Mae’r Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf (2021-26) yn nodi’r bwriad i barhau i gefnogi’r rhaglen Dechrau’n Deg 'flaenllaw', a phenderfyniad i’w hymestyn fel cynnig sydd ar gael i bawb ledled Cymru. O fis Medi 2022 ymlaen, bydd ardaloedd targed ychwanegol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Bydd y cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ar raddfa fwy drwy Dechrau’n Deg yn cael eu cyhoeddi yn nhymor yr hydref 2022. Pan fydd wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd pob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng 2 a 3 oed yn gymwys i gael 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel wedi’i ariannu am 39 wythnos y flwyddyn.

## 4. Myfyrdodau ar Sut y Cyflawnwyd y Rhaglen PaCE

### Cyflwyniad

4.1 Yn y bennod hon rydym yn ceisio rhoi amlinelliad o'r rhaglen PaCE a myfyrio ar y ffordd y cafodd ei chyflawni. Mae dwy adran i'r bennod hon, fel a ganlyn:

- crynodeb byr o gefndir PaCE, y model cyflawni a fabwysiadwyd a'r deilliannau y bwriadwyd i'r rhaglen eu cyflawni
- myfyrdodau ar sut y cyflawnwyd y rhaglen.

### Cyflwyniad i PaCE

4.2 Fel y nodwyd yn gynharach, ymyrraeth marchnad lafur a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen PaCE sydd wedi'i bwriadu i fynd i drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Ei nod yw darparu cymorth unigol i rieni di-waith sy'n ystyried mai gofal plant yw eu prif rwystr rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Yn fwy penodol, mae PaCE wedi'i thargedu at rieni economaidd anweithgar 25 oed a throsodd a rhieni ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).


4.3 Mae PaCE yn gweithredu ochr yn ochr â darpariaeth brif ffrwd sydd wedi'i thargedu at y rhai nad ydynt mewn gwaith, megis Rhaglen Waith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn fwy diweddar y rhaglen Ailgychwyn. Mae hefyd yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru[30] a'r Cynnig Gofal Plant[31], yn ogystal â gwasanaethau a arweinir gan awdurdodau lleol fel Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, er mwyn darparu gwasanaeth integredig, di-dor i ddarpar gleientiaid.

4.4 Darperir y rhaglen gan dîm o gynghorwyr PaCE sy'n darparu cymorth dwys i gyfranogwyr er mwyn ymchwilio i opsiynau cyflogaeth, ystyried eu hanghenion datblygu, goresgyn rhwystrau i gyflogaeth a dod o hyd i atebion ymarferol i heriau gofal plant. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner, i atgyfeirio pobl i'r rhaglen ac i ddod o hyd i gymorth cyflogadwyedd i gyfranogwyr PaCE. Mae Ffigur 4.1 yn ceisio crynhoi'r daith y disgwylir i gyfranogwyr sy'n ymuno â PaCE ac sy'n cymryd rhan ynddi ei dilyn yn gyffredinol.

[30] Lansiwyd Cymunedau am Waith a Mwy yn 2018, ac erbyn hynny roedd PaCE wedi'i hen sefydlu.

[31] Lansiwyd y Cynnig Gofal Plant yn 2017, pan oedd PaCE eisoes ar waith.

Ffigur 4.1 Model cyflawni arfaethedig PaCE




Ffynhonnell: [Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): Adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn](), tud.17

4.5 Dengys Ffigur 4.1 mai’r deilliannau sylfaenol y disgwylir i PaCE eu cyflawni yw:

- cyfranogwyr yn symud ymlaen i waith neu hunangyflogaeth
- cyfranogwyr yn ennill cymwysterau neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith
- cyfranogwyr yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant fel cam tuag at gyflogaeth[32].

4.6 Roedd cynlluniau busnes PaCE hefyd yn nodi cynyddu mewn cyflogadwyedd a chymryd rhan mewn gweithgaredd chwilio am swyddi fel deilliannau'r rhaglen, ond yn ymarferol mae'n anoddach dangos tystiolaeth o'r rhain ac nid oes cymaint o waith craffu wedi'i wneud arnynt o gymharu â'r canlyniadau mwy mesuradwy a drafodir isod.

4.7 Fel rhaglen a ariennir gan ESF, disgwylir i PaCE gyfrannu at dair thema drawsbynciol, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn gysylltiedig â hyn, disgwylir i'r rhaglen gyfrannu at wireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn atodiad 1.

**Myfyrdodau ar sut y cyflawnwyd y rhaglen PaCE**

4.8 Yn yr adran hon, rydym yn dychwelyd at fodel cyflawni arfaethedig PaCE a ddangosir yn Ffigur 4.1 ac yn trafod sut y mae gwahanol elfennau'r rhaglen wedi gweithio'n ymarferol.

*Atgyfeiriadau i PaCE*

4.9 Y bwriad oedd sefydlu cynghorwyr PaCE mewn lleoliadau teuluol/cymunedol, sy'n hygyrch i'r cyfranogwyr targed e.e. Dechrau'n Deg a chanolfannau plant. Rhagwelwyd y byddai sefydlu cynghorwyr PaCE mewn lleoliadau cymunedol yn caniatáu iddynt feithrin perthynas waith dda gyda staff o asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd ac felly, yn helpu i gynhyrchu atgyfeiriadau a darparu gwasanaeth di-dor i gleientiaid unigol. Mae cynghorwyr PaCE wedi

[32] Dim ond ar gyfer cyfranogwyr 16-24 oed y caiff y deilliant hwn ei fesur, h.y. cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 fel y'u gelwir

gweithio o leoliadau teuluol/cymunedol ond yn ymarferol, roedd gwneud hynny’n anoddach na’r disgwyl oherwydd:

- Mae canolfannau Dechrau'n Deg yn tueddu i gael eu lleoli mewn ardaloedd a wasanaethir gan y rhaglen Cymunedau am Waith yn hytrach na PaCE
- nid yw perthnasoedd ag awdurdodau lleol wedi datblygu i’r graddau a fwriadwyd ym mhob ardal, weithiau oherwydd bod gwasanaethau awdurdodau lleol yn crebachu yn wyneb pwysau ariannol
- nid yw lleoliadau cymunedol bob amser yn lleoliadau ffafriol i gynnal sgyrsiau sensitif gyda chyfranogwyr
- mae cysylltiadau gwael â'r rhyngrwyd a chyfyngiadau diogelwch wedi rhwystro mynediad o bell i systemau DWP gan gyfyngu ar allu cynghorwyr i weithio mewn 'amser real' gyda chleientiaid o ganolfannau allgymorth.

4.10 Gwnaed penderfyniad bwriadol ar y cam dylunio i osgoi lleoli cynghorwyr PaCE yn swyddfeydd JCP er mwyn dangos bod yr hyn a gynigir gan PaCE yn rhywbeth gwahanol i ddarpariaeth les prif ffrwd. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae swyddfeydd JCP yn aml wedi bod yn lleoliadau mwy ymarferol a ffrwythlon i gynghorwyr PaCE weithio ohonynt ac mae cynghorwyr wedi gwneud llawer mwy o ddefnydd na'r disgwyl o'r adeiladau hyn.

4.11 Canfu ein gwaith maes fod manteision i gynghorwyr dreulio amser yn adeiladau JCP, yn bennaf oll y gallu i hyrwyddo PaCE i hyfforddwyr gwaith DWP, bod ar gael ar unwaith i unigolion sy'n mynychu swyddfeydd y JCP a chael mynediad i gronfeydd data DWP. Yr anfantais i gynghorwyr yn sgil treulio mwy o amser nag a ragwelwyd mewn safleoedd JCP oedd nad oeddent o bosibl yn integreiddio mor llawn ag y gallent i rwydweithiau cymorth i deuluoedd ac y gallent golli cyfleoedd i ymgysylltu â rhieni sy’n fwy anodd eu cyrraedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn hawlio budd-daliadau lles.

4.12 Mae hyn yn golygu mai’r ffynhonnell unigol bwysicaf o atgyfeiriadau at PaCE fu JCP, gyda llawer llai o gyfranogwyr na’r disgwyl yn cael eu hatgyfeirio gan sefydliadau teuluol/cymunedol neu’n cael eu cyrraedd yn uniongyrchol gan gynghorwyr drwy waith allgymorth. O ganlyniad i hyn mae'r mwyafrif o gyfranogwyr PaCE yn debygol o fod yn hawlio budd-daliadau lles. Ar y llaw

aralldim ond cyfran fach yn unig o'r cyfranogwyr sy'n rhieni economaidd anweithgar nad ydynt yn gwneud cais am fudd-daliadau.

4.13 Lleihaodd llif yr atgyfeiriadau gan JCP yn sgil COVID-19 ac ar ôl i'r DWP gyflwyno'r rhaglenni Kickstart[33] ac Ailgychwyn[34] mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r pandemig hefyd wedi ei gwneud yn anos i rai rhieni ymuno â PaCE, wrth gadw at reolau'r cyfnod clo ac, mewn llawer o achosion, tra roeddent yn addysgu eu plant gartref.

4.14 Fe wnaeth y pandemig atal cynghorwyr rhag gweithio o safleoedd JCP ac o leoliadau allgymorth. Am gyfnod, roeddent yn gyfyngedig i ddarparu gwasanaeth o bell, yn bennaf dros y ffôn, drwy e-bost neu negeseuon testun. Er bod cynghorwyr wedi gallu dychwelyd i swyddfeydd JCP dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae protocolau rheoli risgiau DWP yn golygu nad ydynt wedi gallu dychwelyd i leoliadau cymunedol yn yr un modd ac mae'n debygol y bydd yn cymryd peth amser i adfer y gwasanaeth yn llawn.

*Cymorth gan gynghorwyr – asesu a mentora*

4.15 Mae cymorth gan gynghorwyr wrth wraidd y rhaglen PaCE. Mae'n golygu bod cynghorwyr yn dod i adnabod cyfranogwyr, deall eu hamgylchiadau a'u huchelgeisiau a chael ymdeimlad o'r pethau sy'n eu hatal rhag gweithio. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda chyfranogwyr a meithrin ymddiriedaeth, gan ganiatáu trafodaeth barhaus drwy gydol taith cleientiaid unigol drwy PaCE. Mae'r cymorth a ddarperir gan gynghorwyr yn allweddol er mwyn helpu unigolion i:

- ddeall eu sefyllfaoedd, archwilio posibiliadau ac ystyried opsiynau gwaith: mae cynghorwyr yn helpu i ysbrydoli'r cyfranogwyr i feddwl am waith gan reoli eu disgwyliadau a ffrwyno uchelgeisiau afrealistig
- ystyried ffyrdd o ddatblygu eu sgiliau a gwneud eu hunain yn fwy deniadol i gyflogwyr: mae cynghorwyr yn trafod a, lle y bo'n berthnasol, yn trefnu cyfleoedd hyfforddi a/neu wirfoddoli i gyfranogwyr

[33] Darparodd Kickstart gyllid i gyflogwyr gyflogi pobl ifanc 16-24 oed ar y Credyd Cynhwysol. Cynhaliwyd y Cynllun o fis Medi 2020 tan fis Mawrth 2022.
[34] Mae Ailgychwyn yn darparu cymorth ychwanegol i hawlwyr Credyd Cynhwysol i ddod o hyd i swyddi. Darperir y rhaglen gan Serco yng Nghymru ac mae ar gael i unigolion a allai fod yn gymwys ar gyfer PaCE fel arall. Lansiwyd Ailgychwyn ym mis Gorffennaf 2021 ac mae'r rhaglen yn parhau.

- datblygu CV, gwneud cais am swyddi a pharatoi ar gyfer cyfweliadau: mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys trefnu cyllid i helpu gyda chostau teithio neu gyda chost dillad priodol neu gyfarpar gwaith
- deall y byddent yn well eu byd yn ariannol mewn gwaith: yn aml mae angen cymorth ar gyfranogwyr i ddeall y system les a chadarnhad na fyddant yn peryglu sicrwydd ariannol eu teuluoedd drwy symud ymlaen i waith
- ystyried sut y byddant yn ymdrin â chyfrifoldebau gofal plant: yn aml nid oedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o opsiynau gofal plant ffurfiol na'r cymorth ariannol sydd ar gael i'w galluogi i fanteisio ar yr opsiynau.

4.16 Yn hollbwysig, mae cymryd rhan yn PaCE yn gwbl wirfoddol a gall y cyfranogwyr bennu dwyster a chyflymder eu hymwneud â'r rhaglen. Mae hyn yn wahaniaeth allweddol rhwng y gwasanaeth a ddarperir gan PaCE a'r hyn sydd ar gael drwy raglenni prif ffrwd DWP: mae gan gynghorwyr fwy o amser i weithio gyda chyfranogwyr ac mae'r berthynas rhwng cynghorwyr a'u cleientiaid yn fwy cyfartal na'r berthynas rhwng hyfforddwyr gwaith DWP a'u cleientiaid yn yr ystyr nad oes gorfodaeth neu fygythiad o gosb yn gwmwl drosti.

4.17 Nid oes unrhyw ddau gynghorydd yn gweithio yn yr un ffordd yn union. Mae'r dull a ddefnyddir gan bob cynghorydd yn dibynnu ar brofiad a hoffterau personol yn ogystal ag anghenion a chymhellion cleientiaid. Er bod y gwahaniaethau hyn i'w priodoli i bwyslais yn hytrach nag unrhyw beth mwy sylfaenol, gwelwyd gwahaniaethau amlwg yn nifer y cyfranogwyr y mae cynghorwyr unigol wedi gweithio â nhw.

*Cymorth cyflogadwyedd*

4.18 Mae'r agwedd cymorth cyflogadwyedd ar y rhaglen PaCE yn ei hanfod yn cynnwys pedair prif elfen: hyfforddiant, gwirfoddoli, cyngor a chymorth gyda gofal plant a help i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen neu ddechrau gweithio.

*Hyfforddiant*

4.19 Mae hyfforddiant yn rhan allweddol o PaCE, gan helpu cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau, ennill cymwysterau a gwella eu CV, gan gynyddu eu siawns o gael gwaith. Gellir rhannu'r hyfforddiant yn dri phrif fath:

- cyrsiau sgiliau cyflogadwyedd
- cyrsiau galwedigaethol byr sy'n arwain at dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith fel hylendid bwyd sylfaenol, cymorth cyntaf ac adeiladu
- rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol mwy sylweddol sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig, yn bennaf ar lefel 2.

4.20 Lle y bo'n bosibl, mae'r cyfranogwyr yn cael eu cofrestru ar ddarpariaeth hyfforddiant am ddim a ddarperir o dan nawdd rhaglenni megis Dechrau'n Deg neu wasanaethau 'I Mewn i Waith' awdurdodau lleol, cyrsiau cyflogadwyedd am ddim a ddarperir gan JCP neu gyrsiau galwedigaethol am ddim a gynigir gan golegau addysg bellach. Lle nad oes darpariaeth o'r fath ar gael, mae cynghorwyr yn chwilio am hyfforddiant addas gan y darparwr unigol a gedwir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant i gyfranogwyr PaCE a Cymunedau am Waith.

4.21 Roedd y model caffael darparwr sengl a fabwysiadwyd yn ei hanfod yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr a gytundebwyd ddod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant y tu allan i'r ardal yr oedd eisoes yn ei gwasanaethu yn Ne Cymru, ac is-gontractio iddynt. Roedd y model caffael, a ategwyd gan system archebu electronig, yn ddull newydd a oedd yn dileu'r angen i gynghorwyr chwilio'r farchnad am ddarpariaeth hyfforddiant addas. Roedd hefyd yn ffordd haws i Lywodraeth Cymru reoli cysondeb a chost yr hyfforddiant a ddarparwyd ledled Cymru.

4.22 Er bod y sefyllfa wedi gwella dros amser, arweiniodd yr anawsterau a wynebodd y darparwr a benodwyd drwy'r broses gaffael wrth ddod o hyd i is-gontractwyr i ddarparu hyfforddiant at anghysondeb o ran yr hyfforddiant a oedd ar gael a'r nifer a fanteisiodd ar yr hyfforddiant ledled Cymru, gydag ardaloedd yn y gogledd yn cael eu gwasanaethu'n arbennig o wael. Yn ddiamau, roedd diffyg darpariaeth mewn rhai rhannau o Gymru yn golygu nad oedd rhai cyfranogwyr yn gallu ymgymryd â'r hyfforddiant yr oeddent yn

ei ddymuno, o leiaf am gyfnod tra bod trefniadau is-gontractio yn cael eu rhoi ar waith.

4.23 Effeithiodd y pandemig hefyd ar allu'r cyfranogwyr i ymgymryd â hyfforddiant, a daeth yn amhosibl cynnal hyfforddiant wyneb-yn-wyneb am sawl mis. Mewn ymateb i hynny, datblygodd y darparwr a gytundebwyd amrywiaeth o opsiynau dysgu ar-lein a dysgu cyfunol[35] i ganiatáu i gyfranogwyr barhau i hyfforddi yn ystod cyfnod y pandemig. Ystyriwyd bod cyrsiau ar-lein o'r fath yn ffordd bwysig o gadw diddordeb rhai cyfranogwyr yn y rhaglen.

4.24 Mewn gwirionedd, fodd bynnag, ychydig iawn o hyfforddiant ar-lein yr ymgymerwyd ag ef yn ystod cyfnod y pandemig, yn rhannol oherwydd bod rhieni'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y rhaglen tra roeddent yn gofalu am blant yn llawnamser ac, mewn llawer o achosion, yn addysgu plant gartref. Roedd y nifer a fanteisiodd ar opsiynau dysgu cyfunol yn fach am yr un rheswm a hefyd oherwydd bod llawer o'r cyfranogwyr yn amharod i gymryd rhan yn elfennau wyneb-yn-wyneb y cyrsiau cyfunol, hyd yn oed wrth i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol lacio.

*Profiad gwaith drwy wirfoddoli*

4.25 Anogir cyfranogwyr y rhaglen PaCE i ystyried gwirfoddoli er mwyn cael profiad o fathau penodol o waith, datblygu eu hyder, cael rhywbeth i'w roi ar eu CV a chael tystlythyrau cyfoes. Yn ogystal â bod yn fodd o ddatblygu neu mireinio sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith, caiff gwirfoddoli ei weld fel ffordd o ganiatáu i gyfranogwyr roi cynnig ar feysydd nad ydynt erioed wedi gweithio ynddynt ac i dreialu'r defnydd o ofal plant ffurfiol wrth wirfoddoli.

4.26 Yn ymarferol, ychydig iawn o gyfranogwyr a fanteisiodd ar gyfleoedd gwirfoddoli, ond roedd sylwadau'r rhai a wnaeth hynny yn hynod gadarnhaol, gyda rhai unigolion yn cael cynnig swyddi gan y sefydliadau yr oeddent wedi gwirfoddoli â nhw. Dangosodd ein dadansoddiad amlamrywedd o gronfa ddata cyfranogwyr PaCE fod manteisio ar y cyfle gwirfoddoli yn gysylltiedig â chynnydd o 79 y cant yn y tebygolrwydd o gael gwaith.

---

[35] Wrth sôn am 'ddysgu cyfunol', rydym yn golygu cyrsiau sy'n cynnwys cymysgedd o ddysgu ar-lein a hyfforddiant wyneb-yn-wyneb

*Cronfa rwystrau*

4.27 Defnyddir y gronfa rwystrau i dalu costau pethau sy'n galluogi unigolion i gymryd rhan yn PaCE neu symud i mewn i waith e.e. gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu docynnau bws i'r gwaith. Cronfa pan fetho popeth arall yw hon yn bennaf, gyda chynghorwyr yn defnyddio Cronfa Cymorth Hyblyg DWP i gefnogi'r rhan fwyaf o'r costau achlysurol sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr.

4.28 Mae gwariant y gronfa rwystrau yn gymharol gymedrol o'i gymharu â chostau'r rhaglen gyfan. Fodd bynnag, mae'r symiau bach sy'n cael eu gwario yn gwneud gwahaniaeth i'r cyfranogwyr sy'n elwa o'r gronfa.

*Gofal plant*

4.29 Nod PaCE yw cefnogi rhieni y mae cyfrifoldebau gofal plant yn brif rwystr iddynt gael gwaith. Bwriad y rhaglen oedd cefnogi rhieni a oedd yn cael anawsterau i gael gafael ar ofal plant neu ei fforddio[36] drwy ddarparu cyngor ar faterion yn ymwneud â gofal plant yn ogystal â chyllid i helpu i dalu costau gofal plant tra bod unigolion yn ymgymryd â gweithgareddau a gynlluniwyd i'w paratoi ar gyfer gwaith (e.e., ymgysylltu â chynghorwyr, hyfforddiant a gwirfoddoli) ac wrth i rieni symud i mewn i waith. Gwnaed darpariaeth sylweddol o fewn cyllidebau gwreiddiol y rhaglen i dalu costau ariannol gofal plant.

4.30 Yn ymarferol, mae’r galw am gymorth ariannol i dalu costau gofal plant wedi bod yn is na’r disgwyl ac mae natur y rhwystrau gofal plant yn fwy cymhleth na’r disgwyl. Datgelodd ein gwaith maes, er bod y cyfranogwyr yn ystyried bod gofal plant yn broblem fawr pan fyddant yn ymuno â PaCE am y tro cyntaf, mae hyn yn aml yn adlewyrchu diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael. Mae unigolion yn cael eu gorlethu gan y syniad o geisio cadw swydd, ymdopi'n ariannol a gofalu am eu plant ar yr un pryd. Yn ychwanegol, mae’n anodd gwybod yn union pa fath o ofal plant y sydd ei angen, heb fod yn glir yn gyntaf am yr oriau gwaith a chostau gofal plant. Yn ei hanfod, mae’r ffordd y mae gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth yn fwy cymhleth na dim ond argaeledd

[36] Cynllun Busnes PaCE – GCC T1 v1.2, tud.5

neu fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol. Er mwyn i unigolion deimlo eu bod yn gallu defnyddio gofal plant ffurfiol (yn unrhyw un o'r llu o ffyrdd y caiff ei ddefnyddio), yn gyntaf mae angen iddynt ddeall beth sydd ar gael, sut y mae'n gweithio, faint mae'n ei gostio, pa gymorth sydd ar gael i dalu'r costau hynny, sut y gellir cael gafael ar y cymorth hwnnw a sut i fynd ati i drefnu pethau gyda darparwyr gofal plant.

4.31 Mae cynghorwyr PaCE yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth, gan roi gwybod i gyfranogwyr am opsiynau gofal plant a'u helpu i feddwl am eu hanghenion gofal plant i ddod o hyd i atebion ymarferol: gall y maes gofal plant fod yn gymhleth, gyda Dechrau'n Deg yn darparu 2.5 awr o ofal plant am ddim y dydd (yn dibynnu ar godau post) a'r Cynnig Gofal Plant yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am ddim yr wythnos i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio ar hyn o bryd. Mae cynghorwyr hefyd yn hanfodol i helpu cyfranogwyr i ddeall goblygiadau ariannol cael swydd a deall y system budd-daliadau lles/Credyd Cynhwysol.

4.32 Gellir priodoli'r ffaith bod nifer llai na'r disgwyl yn manteisio ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant i sawl ffactor, er enghraifft: cyfranogwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen yn ystod oriau meithrinfa neu oriau ysgol, a mwy o ddefnydd na'r disgwyl o deulu a ffrindiau fel ffynhonnell gofal plant. Mae cynghorwyr yn aml yn allweddol o ran helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i atebion cymysg i reoli cyfrifoldebau gofal plant, sy'n cwmpasu cyfuniad o feithrinfa/ysgol, darpariaeth gofleidiol ffurfiol a theulu a ffrindiau.

4.33 Cafodd y pandemig effaith sylweddol hefyd ar y nifer a fanteisiodd ar gymorth gofal plant, a hynny oherwydd nad oedd rhieni'n teimlo y gallent barhau i gymryd rhan yn y rhaglen PaCE ac oherwydd bod lleoliadau gofal plant ond yn gallu darparu ar gyfer plant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol.

4.34 Datgelodd ein dadansoddiad o ddata'r rhaglen fod cyfranogwyr y gellid ystyried eu bod yn agosach at y farchnad lafur (y rhai sydd â chymwysterau gwell a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau byrrach) yn fwy tebygol o gael cymorth gyda chostau gofal plant na'r cyfranogwyr yn gyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y gyfran uchel o gyfranogwyr sy'n barod am waith sy'n manteisio ar gymorth gofal plant 'i mewn i waith' wrth iddynt symud i

mewn i waith. Mae hefyd i'w briodoli'n rhannol i'r niferoedd bach sy’n manteisio ar gymorth gofal plant i ganiatáu cyfranogwyr sy'n llai parod am waith i ymgymryd â chyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi, yn ogystal â’r cynnydd yn yr opsiynau gofal plant am ddim sydd ar gael (gan negyddu’r angen am gymorth gofal plant PaCE). Fodd bynnag, gallai hefyd awgrymu bod y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur yn amharod i ddefnyddio gofal plant ffurfiol.

4.35 Rhaid cydnabod hefyd ei bod yn parhau i fod yn anodd i rai rhieni ddod o hyd i atebion gofal plant ymarferol, yn enwedig unigolion â phlant sydd â phroblemau iechyd neu anghenion dysgu ychwanegol ac unigolion â nifer o blant o wahanol oedrannau.

# 5. I ba raddau y mae PaCE wedi cyflawni'r deilliannau disgwyliedig

### Cyflwyniad

5.1 Yn y bennod hon rydym yn ceisio asesu a yw'r rhaglen PaCE wedi cyflawni'r hyn yr oedd wedi'i fwriadu i'w gyflawni. Mae dwy adran i'r bennod hon, fel a ganlyn:

- trafodaeth ar y deilliannau a gyflawnwyd gan PaCE, yn benodol y tri deilliant sylfaenol a drafodwyd yn y bennod flaenorol:
  - cyfranogwyr yn symud ymlaen i waith neu hunangyflogaeth (deilliannau swyddi)
  - cyfranogwyr yn ennill cymwysterau neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith
  - cyfranogwyr yn symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant fel cam tuag at gyflogaeth.
- ystyriaeth o effeithiau ehangach PaCE.

### Y deilliannau a gyflawnwyd

*Deilliannau swyddi*

5.2 Mae PaCE yn ymwneud yn bennaf â helpu i symud pobl nad ydynt yn gweithio i mewn i waith a 'deilliannau swyddi' fu prif darged y rhaglen ers ei lansio.

5.3 Mae'r deilliannau swyddi a gyflawnwyd wedi rhagori'n gyson ar y disgwyliadau. Erbyn mis Hydref 2021, roedd 44 y cant o holl gyfranogwyr PaCE (mae hyn yn cyfateb i 2,885 o unigolion) wedi symud i mewn i waith, gan ragori ar y targed cyffredinol diwygiedig o 36 y cant ar gyfer deilliant swyddi, a ragorodd ar y targed gwreiddiol o 20 y cant. Fodd bynnag, effeithiwyd yn ddifrifol ar y deilliannau swyddi gwirioneddol gan y pandemig COVID-19 a dim ond yn rhannol y maent wedi adfer ers hynny. Mae'n bosibl, felly, y gallai cyfran uwch fyth o gyfranogwyr fod wedi symud ymlaen i waith oni bai am y pandemig.

5.4 Rydym yn amcangyfrif y byddai tua 520 yn fwy o gyfranogwyr wedi ymuno â PaCE erbyn mis Hydref 2021 pe na bai'r pandemig wedi ymyrryd[37]. Gan gymryd y byddai cyfran debyg o'r cyfranogwyr ychwanegol hyn wedi symud i mewn i waith, gellir dadlau y gellid bod wedi cyflawni 229 o ddeilliannau swyddi eraill.[38]. Ar ben hynny, fel y nodwyd, mae'n bosibl y gallai cyfran uwch fyth o'r cyfranogwyr a ymunodd â'r rhaglen fod wedi symud i mewn i waith oni bai am y pandemig.

5.5 Mae'r gyfradd deilliannau swyddi ar gyfer PaCE yn cymharu'n ffafriol iawn â'r gyfradd ar gyfer gweithrediadau cyflogadwyedd eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y gellir eu cymharu'n fras â'r rhaglen. Er enghraifft, aeth 33 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn Esgyn i mewn i waith[39], llwyddodd 30 y cant o gyfranogwyr Cymunedau am Waith[40] i gael deilliannau swyddi a llwyddodd 27 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd[41] i symud i mewn i waith.

5.6 Fodd bynnag, roedd PaCE yn fwy llwyddiannus o ran symud rhai grwpiau o unigolion i mewn i waith nag eraill. Cafodd cyfran uwch o'r cyfranogwyr y gellid eu disgrifio fel rhai sy'n fwy 'parod am waith' swyddi, gan gynnwys unigolion a oedd eisoes yn chwilio am waith, y rhai a oedd wedi bod mewn gwaith yn fwy diweddar, unigolion â chymwysterau gwell, y rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg a'r rhai ar oedran (30 i 40 oed) pan oeddent yn fwy tebygol o fod â phlant o oedran ysgol. Gallai hyn, ynghyd â'r ffaith bod mwyafrif yr atgyfeiriadau at PaCE yn cael eu gwneud gan JCP a bod bron i hanner yr holl gyfranogwyr a symudodd i mewn i swyddi wedi gwneud hynny o fewn tri mis i ymuno â'r rhaglen, awgrymu elfen o ddi-fuddiant h.y. ei bod yn debygol y byddai rhai cyfranogwyr wedi cael swyddi hyd yn oed pe na baent wedi ymuno â PaCE.

---

[37] Roedd cyfanswm o 6,535 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen hyd at y pwynt hwnnw

[38] Roedd cyfanswm o 2,885 o gyfranogwyr wedi symud ymlaen i waith erbyn mis Hydref 2021

[39] Gwerthusiad o Raglen Esgyn (Cam 3 a gwerthusiad terfynol), tud.34

[40] Gwerthusiad Cymunedau am Waith (Cam 3: adroddiad ar ganlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg), tud.51

[41] Adolygiad Canol Rhaglen o'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, tud.50

5.7 Mae ein gwaith maes yn ogystal â'n dadansoddiad o ddata APS/LFS, yn awgrymu na fyddai 27 y cant o'r cyfranogwyr a symudodd i mewn i waith wedi gwneud hynny heb gymorth gan PaCE. Mae hyn yn cyfateb i 1,567 o rieni ychwanegol yn dechrau gweithio erbyn mis Hydref 2021. At hynny, mae'n debygol bod PaCE wedi cyflymu'r broses o symud i mewn i waith ar gyfer cyfranogwyr eraill a allai fod wedi dod o hyd i swyddi yn hwyrach nag y gwnaethant.

5.8 Dangosodd ein dadansoddiad o ddata’r rhaglen fod agweddau penodol ar y rhaglen PaCE yn gysylltiedig â gwelliannau mewn deilliannau swyddi, gan gynnwys cymorth i dalu costau gofal plant, ymgymryd â lleoliad gwirfoddoli ac, i raddau llai, ennill cymwysterau neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith. Er bod yr elfennau gwahanol hyn o PaCE yn amlwg wedi gwneud gwahaniaeth i siawns unigolion o symud i mewn i waith, roedd llwyddiant y rhaglen yn seiliedig ar y dull cyfannol a fabwysiadwyd, lle mae cymorth ymarferol (fel cymorth ariannol gyda gofal plant, cyfleoedd i ymgymryd â hyfforddiant neu gyfleoedd i wirfoddoli) yn rhan o becyn integredig sy'n cael ei ategu gan y canllawiau a'r anogaeth a ddarperir gan gynghorwyr PaCE.

5.9 Er bod cyfrifoldebau gofal plant yn ei gwneud yn anoddach i unigolion weithio, yn aml nid dyma'r unig rwystr a wynebwyd. Dangosodd dadansoddiad o ddata'r rhaglen fod ffactorau eraill sy’n cael effaith andwyol ar y tebygolrwydd y bydd cyfranogwyr yn dod o hyd i waith yn cynnwys:

- dod o Gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (sydd o bosibl yn adlewyrchu effeithiau rhwystrau megis bod yn ymfudwyr gyda llai o brofiad o farchnad lafur y DU, sgiliau Saesneg gwael a byw mewn cymunedau economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig)
- bod â chyflwr iechyd/anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- bod yn rhiant unigol
- bod yn 16-25 oed (sydd o bosibl yn adlewyrchu diffyg profiad gwaith)
- bod â chymwysterau gwael
- wedi bod yn ddi-waith ers mwy na phum mlynedd.

5.10 Tynnodd ein gwaith maes sylw hefyd at yr effeithiau andwyol ar y posibilrwydd y bydd cyfranogwyr yn symud i mewn i waith: bod â nifer o blant; problemau iechyd meddwl a dod o deuluoedd â hanes o ddiweithdra.

*Cymwysterau a/neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd*

5.11 Gostyngwyd y targedau ar gyfer ennill cymwysterau neu dystysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith ar y ddau achlysur pan estynnwyd y rhaglen, yn y bôn i gydnabod y perfformiad gwan mewn perthynas â'r deilliannau hyn hyd hynny.

5.12 Cyfrannodd sawl ffactor at y perfformiad gwan hwn, gan gynnwys:

- dim diddordeb arbennig gan y cyfranogwyr mewn hyfforddiant: eu blaenoriaeth oedd dod o hyd i waith yn hytrach na datblygu eu sgiliau neu ennill cymwysterau
- ffocws ar hyfforddiant cyflogadwyedd heb ei achredu, gan gynnwys cyrsiau byr a ddarperir gan DWP a chan gyflogwyr sy'n awyddus i recriwtio
- anghysondeb o ran argaeledd y cyrsiau gan y darparwr a gytundebwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant i gyfranogwyr PaCE, yn enwedig yn nyddiau cynnar y rhaglen
- lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth ymhlith cynghorwyr o'r ddarpariaeth hyfforddiant prif ffrwd sydd ar gael yn eu hardaloedd e.e., drwy golegau addysg bellach
- y gofyniad i symud i ddarpariaeth ar-lein yn wyneb COVID-19 gan olygu bod llai o opsiynau ar gael, o leiaf yn nyddiau cynnar y pandemig
- dysgu ar-lein yn addas i rai cyfranogwyr ond ddim yn apelio at eraill neu ddim yn hygyrch iddynt, er mai ychydig iawn o hyfforddiant ar-lein a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y pandemig
- dysgu ar-lein ddim yn ddull dysgu priodol ar gyfer rhai cyrsiau
- anawsterau gweinyddol a oedd yn atal rhai o'r cymwysterau a enillwyd rhag cael eu cofnodi
- pwysau ar gyllidebau PaCE a oedd yn arwain at lai o gyfranogwyr yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant mwy manwl, tymor hwy sy'n arwain at gymwysterau llawn, lefel uwch.

5.13 Mae'r pwynt olaf hwn yn gysylltiedig ag anghysondeb cynhenid yng nghanllawiau rhaglen PaCE. Mae'r Canllawiau Gweithredol yn diffinio 'person â lefel isel o sgiliau' fel unigolyn heb gymwysterau sy'n uwch na lefel 2 ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)[42] ond mae'r Canllawiau Hyfforddi yn glir, yn achos cyrsiau a ddarperir gan y darparwr a gytundebwyd gan Lywodraeth Cymru, y bydd atgyfeiriadau ar gyfer hyfforddiant ar lefel 3 yn cael eu hystyried fesul achos ond mai eithriad fyddai hynny ac y byddai angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen â hyfforddiant o'r fath[43].

5.14 Dangosodd ein dadansoddiad amlamrywedd fod ennill cymwysterau neu dystysgrif sy'n gysylltiedig â gwaith yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddai cyfranogwyr 16-24 oed yn cael swydd ond mai ychydig o effaith a gâi ar ddeilliannau cyflogaeth y rhai sy'n 25 oed a hŷn. Mae hyn o bosibl yn awgrymu bod cymwysterau yn arbennig o bwysig i bobl iau nad oes ganddynt hanes o weithio.

*Deilliannau addysg neu hyfforddiant*

5.15 Cafodd y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr 16-24 oed (Blaenoriaeth 3) sy'n symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant eu lleihau hefyd ar y ddau achlysur pan estynnwyd y rhaglen, gan adlewyrchu perfformiad gwan eto mewn perthynas â'r targed hwn hyd hynny.

5.16 Fel yn achos cymwysterau, un o'r prif resymau am y perfformiad gwan hwn oedd bod cyfranogwyr yn tueddu i fod â diddordeb mewn dod o hyd i swyddi yn hytrach na dychwelyd i addysg (er gwaethaf yr hyn a ddywedir uchod am bwysigrwydd cymwysterau/tystysgrifau i bobl ifanc yn arbennig). Yn ogystal â hyn, mae'n debygol bod yr amrywiaeth o raglenni sy'n cystadlu â'i gilydd (llawer ohonynt wedi'u cefnogi gan ESF) sydd ar gael i bobl ifanc 16-24 oed wedi denu'r rhai a oedd yn awyddus i chwilio am hyfforddiant: gan gynnwys, er enghraifft, prentisiaethau, Adtrack, Cam Nesa ac Ysbrydoli i Weithio.

[42] Canllawiau Gweithredol PaCE (2016), tud.19
[43] Canllawiau Hyfforddi Cymunedau am Waith a PaCE V2.0, Ebrill 2018, tud.6

*Themâu Trawsbynciol*

5.17 Mae PaCE yn cyfrannu at dair thema drawsbynciol, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd, datblygu cynaliadwy a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol. Er na osodwyd unrhyw dargedau, cynlluniwyd y rhaglen i fynd i'r afael ag un ar ddeg o ddangosyddion lefel achos yn ymwneud â'r themâu hyn, fel y nodir yn atodiad 1. Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud ag ymgysylltu â grwpiau difreintiedig penodol, darparu cymorth i helpu cyfranogwyr i gael gwaith a rhedeg y rhaglen mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal, cyflog cyfartal, y Gymraeg, datblygu cynaliadwy ac yn helpu i drechu tlodi ac allgau cymdeithasol.

5.18 Roedd yn amlwg o'n hymchwil desg a'n gwaith maes bod themâu trawsbynciol yn rhan annatod o ffyrdd y rhaglen o weithio. Er enghraifft, mae dogfennaeth a deunydd hyrwyddo'r rhaglen yn ddwyieithog ac yn cynnwys delweddau o fenywod, dynion a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yn hollbwysig, mae'r themâu trawsbynciol wedi bod yn nodwedd o'r hyfforddiant i gynghorwyr drwy gydol y rhaglen ac maent yn rhan ddyddiol o'r ffordd y mae cynghorwyr yn gweithio gyda chleientiaid.

5.19 Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus o ran ymgysylltu â chyfranogwyr benywaidd; helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i atebion i rwystrau'n gysylltiedig â gofal plant; annog cyfranogwyr i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli er mwyn cryfhau eu CV; rhoi sicrwydd i gyfranogwyr y byddent yn well eu byd mewn gwaith a'u helpu i ddeall y system fudd-daliadau; a chefnogi menywod i gael gwaith, gan gynnwys mewn sectorau anhraddodiadol[44]. Mae astudiaethau achos a gynhwyswyd yn adroddiadau Cam 1: Gwerthuso Prosesau ac Allbwn a Cham 2: Gwerthuso Profiadau a Deilliannau yn cynnig enghreifftiau o PaCE yn gwneud y pethau hyn. Mae Atodiad 2 hefyd yn rhoi enghreifftiau cryno sy'n deillio o wybodaeth reoli Llywodraeth Cymru o'r ffyrdd yr aethpwyd i'r afael â dangosyddion lefel achos y themâu trawsbynciol.

[44] Yn wir, cafodd cronfa ddata safonol cyfranogwyr ESF ei ehangu er mwyn casglu gwybodaeth am y swyddi y symudodd y cyfranogwyr i mewn iddynt, yn rhannol, i gasglu tystiolaeth o'r rhai sy'n symud i swyddi anhraddodiadol.

5.20 Mae'r rhaglen hefyd wedi llwyddo i ymgysylltu â phobl anabl ac unigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ond nid y niferoedd a ddisgwyliwyd ac roedd cyfranogwyr o'r grwpiau hyn ychydig yn llai tebygol o symud i mewn i waith na chyfranogwyr yn gyffredinol. Mae'n bosibl y gellir priodoli'r perfformiad ychydig gwannach hwn, yn rhannol o leiaf, i'r ffaith bod gweithrediadau eraill a ariennir gan ESF yn cyrraedd y rhai o'r grwpiau a allai fod wedi cymryd rhan yn y rhaglen PaCE.

5.21 Mae holl ddogfennaeth y rhaglen (e.e. cyhoeddusrwydd, portffolios cyfranogwyr) yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ac yn bodloni safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, gwnaed ychydig yn llai o ddefnydd na'r disgwyl o'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, canfu ein gwaith maes dystiolaeth o gynghorwyr yn annog cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel ffordd o gryfhau eu CV.

5.22 Nid yw datblygu cynaliadwy wedi bod yn nodwedd arbennig o amlwg o PaCE, ond bu cynnydd yn y defnydd o lwyfannau cyfathrebu rhithwir yn sgil y pandemig COVID-19, gan leihau teithio gan gynghorwyr ac aelodau eraill o'r tîm.

5.23 Wrth fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol hyn, mae PaCE hefyd yn cyfrannu at wireddu agweddau ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

**Effaith PaCE**

5.24 Nododd y Ddamcaniaeth Newid sy'n sail i PaCE nifer o effeithiau tymor hwy y disgwyliwyd i'r rhaglen eu cael, yn benodol:

- cyflogaeth uwch ymysg rhieni
- incwm aelwydydd uwch
- llai o aelwydydd mewn tlodi
- gwell iechyd ymysg rhieni
- mwy yn manteisio ar ofal plant ffurfiol
- gwell canlyniadau datblygiadol i blant
- rhagor o blant yn dechrau'r ysgol gan feddu ar y sgiliau angenrheidiol.

5.25 Yn yr adran hon rydym yn ceisio rhoi syniad o i ba raddau y mae'r rhain wedi cael eu gwireddu.

*Cyflogaeth uwch ymysg rhieni*

5.26 Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae tua 44 y cant o gyfranogwyr PaCE wedi symud i mewn i waith ac er y byddai rhai o'r rhai a wnaeth hynny wedi dod o hyd i swyddi beth bynnag, amcangyfrifwn fod PaCE wedi arwain at 1,567 yn fwy o rieni'n gweithio nag a fyddai wedi bod yn wir fel arall.

*Incwm aelwydydd uwch*

5.27 Er bod y perfformiad o ran ddeilliannau swyddi wedi bod yn galonogol, mae cyfranogwyr wedi tueddu i symud ymlaen i waith ar lefel weddol isel â chyflogau isel. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n symud i mewn i waith, yn ddiamau, yn well eu byd yn ariannol nag yr oeddent o'r blaen. Mae cynghorwyr PaCE yn chwarae rhan allweddol wrth wirio pa effeithiau y bydd symud i mewn i waith yn eu cael ar gyllid y cyfranogwyr a rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn well eu byd. Dangosodd ein gwaith maes hefyd fod unigolion yn teimlo bod ganddynt fwy o arian a bod hyn wedi arwain at gael dewisiadau yn eu bywydau nad oedd ganddynt yn flaenorol.

5.28 Fodd bynnag, er bod cyn-gyfranogwyr yn well eu byd ac, ar y cyfan, yn fodlon ar eu henillion, roedd y rhan fwyaf yn dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth i ychwanegu at eu hincwm ac erys y risg y byddant yn parhau i ddioddef tlodi mewn gwaith. Nododd Darcy a Finch (2017), er enghraifft, o ran gweithwyr ar gyflogau isel, nid cam cyntaf ar yr ysgol yw swyddi ar gyflogau isel – dyma'r unig gam, gyda dim ond un o bob chwe gweithiwr yn gwneud cynnydd parhaus o waith cyflog isel dros gyfnod o ddeng mlynedd[45]. Gan adleisio'r honiad hwn, canfu gwaith maes yn ystod Cam 2 y gwerthusiad hwn fod tua hanner y rhai a symudodd i mewn i swyddi lefel isel yn 2018 wedi symud i swyddi elfennol gwahanol erbyn 2019.

5.29 Nodwyd menywod sy'n gweithio'n rhan amser mewn galwedigaethau gwerthu, gwasanaethau cwsmeriaid, llety a gwasanaeth bwyd (sydd oll yn sectorau

[45] D'Arcy, C. a Finch, D. (2017), Y Dihangfa Fawr? Cyflog isel a dilyniant ym marchnad lafur y DU, Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

pwysig i gyfranogwyr PaCE) fel grŵp a oedd yn arbennig o debygol o gael eu dal mewn gwaith â chyflog isel. Cyfeiriodd McKnight et al (2016) hefyd at yrfaoedd cyflog isel lle mae unigolion yn cylchdroi rhwng gwaith â chyflog isel a diweithdra/dim gwaith, a bod cyfnodau o ddiweithdra neu gyflogaeth mewn swyddi â chyflogau isel yn cael effaith negyddol ar ragolygon swyddi unigolion yn y dyfodol[46].

*Llai o aelwydydd mewn tlodi*

5.30 Nid yw'n bosibl gwneud sylwadau ynghylch a yw PaCE yn lleihau nifer yr aelwydydd mewn tlodi, ond dangosodd Sefydliad Joseph Rowntree (2020) fod y gyfradd tlodi ymhlith aelwydydd heb waith fwy na dwywaith y gyfradd ymhlith teuluoedd ag aelodau mewn swyddi rhan-amser a thros deirgwaith yn uwch na theuluoedd ag aelodau sydd â swyddi amser llawn[47]. Wedi dweud hyn, fodd bynnag, dangosodd y papur briffio hefyd fod cyfraddau tlodi mewn gwaith yn uwch ymhlith y rhai a gyflogir yn y sectorau cyfanwerthu a manwerthu, a llety a gwasanaethau bwyd[48], sydd ill dau yn cynrychioli sectorau cyflogaeth pwysig ar gyfer cyn-gyfranogwyr PaCE. Roedd y papur briffio hefyd yn nodi mai 'un ffactor o ran methu dianc rhag tlodi mewn gwaith yw'r angen i gydbwyso gwaith cyflogedig â gofalu am blant'[49].

*Gwell iechyd ymysg rhieni*

5.31 Unwaith eto, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau pendant ar effeithiau'r rhaglen ar iechyd rhieni. Fodd bynnag, mae effeithiau negyddol diweithdra ar iechyd corfforol a meddyliol yn dra hysbys. Tynnodd Bratley (1994), er enghraifft, sylw at bedair agwedd ar ddiweithdra sy'n effeithio ar iechyd: tlodi, straen, ymddygiad nad yw'n iach a llai o debygolrwydd o gael swydd yn y dyfodol[50].

[46] McKnight, A., Stewart, K., Himmelweit, S.M. a Palillo, M. (2016), 'Cyflog isel a thlodi mewn gwaith: mesurau ataliol a dulliau ataliol', Brwsel, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwsiant, Y Comisiwn Ewropeaidd, tud.25

[47] Briff Sefydliad Joseph Rowntree (Tachwedd 2020), Tlodi yng Nghymru 2020, tud.3

[48] Ibid., tud.4

[49] Ibid., tud.1

[50] Bartley, M., (1994), Diweithdra ac afiechyd: deall y berthynas. Journal of *Epidemiology and Community Health*, 1994: 48: t.333-337

Yn yr un modd, dangosodd What Works Wellbeing (2017) fod cysylltiad rhwng symud o fod yn ddi-waith i waith a gwelliannau mewn iechyd meddwl[51].

5.32 Datgelodd ein gwaith maes enghreifftiau o rieni unigol yn teimlo'n well yn gorfforol ac yn feddyliol o ganlyniad i symud i mewn i waith. Ymhlith yr enghreifftiau roedd mam yn colli pwysau ac yn teimlo'n fwy heini yn gorfforol o ganlyniad i symud i mewn i waith a nifer o rieni yn sôn am fwy o ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad o ganlyniad i 'symud ymlaen' yn eu bywydau.

*Mwy yn manteisio ar ofal plant ffurfiol*

5.33 Yn ddiamau, arweiniodd PaCE at rai rhieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol lle na fyddent wedi gwneud hynny fel arall. Fodd bynnag, nid oedd y niferoedd a fanteisiodd ar ofal plant ffurfiol mor fawr ag y rhagwelwyd yn wreiddiol ymhlith cyfranogwyr PaCE.

*Deilliannau datblygiadol gwell i blant*

5.34 Nid oedd cwmpas ein hymchwil yn ymestyn i fesur canlyniadau datblygiadol plant. Fodd bynnag, darparodd ein gwaith maes rywfaint o dystiolaeth anecdotaidd fod effeithiau cadarnhaol yn deillio o rieni'n cymryd rhan yn PaCE a/neu blant yn dod i gysylltiad â gofal plant ffurfiol yn sgil hynny. Soniodd rhieni unigol am blant yn ffynnu mewn gofal plant ac yn dod yn fwy hyderus ac annibynnol o ganlyniad i ymgysylltu â phlant eraill o'r un oedran a phobl y tu allan i'w cylchoedd uniongyrchol.

*Rhagor o blant yn dechrau'r ysgol gan feddu ar y sgiliau angenrheidiol.*

5.35 Unwaith eto, mae cwmpas ein hymchwil yn cyfyngu ar ein gallu i wneud sylwadau ar effeithiau PaCE ar y sgiliau sydd gan blant pan fyddant yn dechrau'r ysgol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd gan rieni yn awgrymu rhai effeithiau cadarnhaol o ran paratoi plant ar gyfer yr ysgol lle nad oedd ganddynt lawer o brofiad gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a bod sgiliau ieithyddol plant yn gwella o ganlyniad i gael gofal plant ffurfiol.

[51] What Works Wellbeing (2017), Briff: diweithdra, (ail)gyflogaeth a lles

# 6 Cywirdeb y Ddamcaniaeth Newid sy'n Sail i PaCE

6.1 Yn y bennod hon rydym yn dychwelyd at y Ddamcaniaeth Newid sy'n sail i PaCE ac yn ystyried i ba raddau y mae'r rhagdybiaethau a wnaed pan ddatblygwyd y rhaglen yn dal dŵr yn ymarferol. Mae dwy adran i'r bennod hon, fel a ganlyn:

- cyflwyniad i'r Ddamcaniaeth Newid
- ystyriaeth o gywirdeb y rhagdybiaethau a lywiodd ddyluniad PaCE.

**Cyflwyniad i Ddamcaniaeth Newid PaCE**

6.2 Nododd adroddiad Gwerthuso Proses 2016 y cyd-destun ar gyfer PaCE a'r Ddamcaniaeth Newid sy'n sail i'r rhaglen. Amlinellodd y Ddamcaniaeth Newid y rhesymeg dros y rhaglen, y rhagdybiaethau a fu'n sail i ddyluniad PaCE gan gwmpasu'r model rhesymeg a oedd yn crynhoi'r mewnbynnau a oedd ar gael i'r rhaglen, y gweithgareddau i'w cyflawni, yr allbynnau i'w cyflawni a'r canlyniadau a'r effeithiau y disgwyliwyd i'r rhaglen eu cyflawni. Dangosir y Ddamcaniaeth Newid a'r model rhesymeg yn Ffigur 6.1.

**Cywirdeb y rhagdybiaethau a fu'n sail i ddyluniad PaCE.**

6.3 Mae Tabl 6.1 sy'n dilyn yn nodi ein hasesiad o'r graddau y mae'r rhagdybiaethau a wnaed wedi'u gwireddu yn ymarferol. Er bod sail dda i nifer o'r rhagdybiaethau a wnaed, mae eraill wedi bod yn rhannol gyfeiliornus o leiaf, ac mae hyn yn golygu nad yw rhai agweddau ar PaCE wedi cael eu rhoi ar waith yn unol â'r bwriad. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, y gwnaed y rhagdybiaethau mewn cyfnod mwy sefydlog, cyn i COVID-19 gael cymaint o effaith ar fywydau pobl a gallu asiantaethau i ddarparu gwasanaethau.

**Tabl 6.1: Asesiad o Gywirdeb y Rhagdybiaethau yn y Ddamcaniaeth Newid**

| Rhagdybiaeth | Cywirdeb |
|---|---|
| **Mewnbwn i'r Rhagdybiaethau Gweithgarwch** | |
| 1. Mae'r buddiolwyr a fwriadwyd yn bodoli a gellir dod o hyd iddynt/cysylltu â nhw | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) a'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) yn awgrymu, ar unrhyw adeg benodol, y gallai fod tua 20,000 o rieni nad ydynt yn gweithio yng Nghymru:<br>• a fyddai'n hoffi cael gwaith ac sy'n chwilio am waith<br>• a oedd eisiau gweithio ond ddim yn chwilio am waith oherwydd cyfrifoldebau gofal plant<br>Byddai hyn yn sicr yn awgrymu bod y cyfranogwyr arfaethedig yn bodoli.<br><br>Cyfanswm y targed cysylltiadau diwygiedig ar gyfer PaCE oedd 8,777 yn ystod oes y rhaglen, sy'n cyfateb i ryw 1,050 o unigolion y flwyddyn, neu bump y cant o'r boblogaeth y bwriadwyd i PaCE eu targedu. Er gwaethaf effeithiau andwyol y pandemig COVID-19, roedd 6,541 o unigolion wedi cymryd rhan yn PaCE erbyn mis Hydref 2021, sy'n cyfateb i 1,033 y flwyddyn, sy'n awgrymu y daethpwyd o hyd i'r cyfranogwyr targed (y targed diwygiedig).<br><br>Fodd bynnag, effeithiodd lansiad rhaglen Ailgychwyn DWP yn 2021 ar yr atgyfeiriadau i PaCE, ac roedd hyfforddwyr gwaith DWP yn tueddu i atgyfeirio unigolion a oedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen PaCE i'r rhaglen Ailgychwyn yn lle hynny. |
| 2. Mae'r safleoedd, yr offer TG a'r lleoliadau oll yn addas i gyflwyno'r gwasanaeth | Nid yw PaCE wedi'i sefydlu mewn lleoliadau teuluol/cymunedol i'r graddau a ddisgwyliwyd oherwydd nad ydynt bob amser mewn lleoliad delfrydol ar gyfer PaCE (gyda llawer ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd a wasanaethir gan y rhaglen) ac oherwydd nad yw perthnasoedd ag awdurdodau lleol wedi datblygu i'r graddau a fwriadwyd.<br><br>Er bod offer TG a ddefnyddir gan gynghorwyr yn gweithio'n dda ar y cyfan, nid yw bob amser yn bosibl defnyddio'r offer i'w lawn botensial wrth weithio o leoliadau allgymorth. Y rhesymau am hyn yw cysylltiadau gwael â'r rhyngrwyd, a chyfyngiadau diogelwch sy'n atal mynediad o bell i systemau DWP. Mae hyn yn cyfyngu ar allu cynghorwyr i weithio mewn 'amser real' gyda |

| | |
|---|---|
| | chleientiaid. Mae’n nodedig yn hyn o beth, fodd bynnag, yn groes i’r disgwyliadau yn ystod Cam 1 y gwerthusiad hwn yn 2018, bod cynghorwyr bellach yn gallu cael mynediad at gofnodion y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. |
| 3. Mae'r systemau monitro'n casglu manylion buddiolwyr yn ddigonol | Mae systemau monitro wedi'u cynllunio'n bennaf i gasglu data i fodloni anghenion WEFO yn hytrach na rheoli'r rhaglen.<br><br>Er bod rhywfaint o ddata ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol gan WEFO yn cael eu casglu, mae diffyg gwybodaeth o hyd yng nghronfa ddata'r rhaglen a fyddai'n caniatáu dealltwriaeth fwy cyflawn o sefyllfaoedd a theithiau'r cyfranogwyr drwy PaCE. Er enghraifft, nid yw'n cofnodi data ar hanes gwaith y cyfranogwyr, ar niferoedd ac oedrannau plant dibynnol nac ar y rhwystrau canfyddedig i waith. Mae rhywfaint o ddata ychwanegol am gyfranogwyr yn cael eu casglu mewn portffolios cyfranogwyr ac mewn cofnodion ar wahân (e.e., taenlen sy'n manylu ar gyfranogwyr sy'n cael mynediad at gymorth ariannol ar gyfer gofal plant), ond nid yw'r rhain yn cael eu dwyn ynghyd mewn un man er mwyn gallu cynnal dadansoddiad mwy cynhwysfawr.<br><br>Wedi dweud hyn, fodd bynnag, cydnabyddir bod angen taro cydbwysedd rhwng gorlwytho cynghorwyr a chasglu digon o ddata i ganiatáu i effeithiolrwydd y rhaglen gael ei asesu.<br><br>Mae hefyd yn nodedig bod data rhaglen yn cael eu cofnodi mewn taenlenni Excel, y fformat a ragnodir gan WEFO. Fodd bynnag, o ystyried nifer y cyfranogwyr sy'n ymgysylltu â PaCE, nid dyma'r feddalwedd fwyaf priodol at y diben hwn, a byddem yn dadlau bod angen system rheoli cleientiaid mwy soffistigedig. |
| 4. Gellir recriwtio a hyfforddi staff DWP a chyflawni archwiliadau diogelwch arnynt | Cymerodd fwy o amser na'r disgwyl i benodi'r cnewyllyn llawn o gynghorwyr PaCE. Fodd bynnag, erbyn i Gam 1 y gwerthusiad hwn gael ei gynnal yn 2018, roedd cyflenwad llawn o staff yn eu lle. Er gwaethaf rhywfaint o drosiant yn y cyfamser, arhosodd lefelau staffio PaCE yn weddol sefydlog tan ddechrau'r pandemig COVID-19. Bryd hynny, cafodd cynghorwyr PaCE eu hadleoli’n rhannol i helpu DWP i liniaru effeithiau’r pandemig cyn dychwelyd i’w dyletswyddau arferol erbyn mis Medi 2020. |

| | |
|---|---|
| 5. Mae hyfforddiant y staff yn ddigonol | Mae'r trefniadau sefydlu a hyfforddiant parhaus yn rhoi i'r staff y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y swydd.<br><br>Serch hynny, mae angen hyfforddiant parhaus, gan gynnwys ar fudd-daliadau lles, defnyddio cyfrifiannell budd-daliadau a'r Cynnig Gofal Plant, i sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau. |
| 6. Nid yw'r buddiolwyr yn cael eu hatal rhag cyrchu'r gwasanaethau | Prin yw'r dystiolaeth o gleientiaid posibl yn cael eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth, er bod adroddiad gwerthuso Cam 1 yn awgrymu nad oedd cymaint o ymwybyddiaeth o PaCE â'r disgwyl. |
| 7. Mae'r ddarpariaeth yr un mor hygyrch ar draws Cymru | Mae gwasanaethau cynghorwyr ar gael i'r un graddau ar draws yr ardaloedd lle y rhoddwyd y rhaglen ar waith. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mewn lefelau ymgysylltu o un ardal awdurdod lleol i'r llall yn awgrymu nad yw treiddiad y rhaglen yn gyfartal ym mhob ardal. Mae'n ymddangos bod yr amrywiad hwn i'w briodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys:<br>• ansawdd y perthnasoedd y mae cynghorwyr yn eu datblygu gyda hyfforddwyr gwaith JCP<br>• lefel ac ansawdd y rhyngweithio rhwng cynghorwyr â gwasanaethau cymorth i deuluoedd a sefydliadau partner<br>• cydbwysedd yr amser a dreulir gan gynghorwyr mewn JCP a lleoliadau cymunedol, a'r ffaith bod cysylltiadau'n haws mewn Canolfannau Byd Gwaith ar y cyfan<br>• trosiant cynghorwyr<br>• arddull a gallu cynghorwyr unigol i gysylltu â phartneriaid a chleientiaid.<br><br>Argymhellodd adroddiad Cam 2 y dylid cynnal adolygiad manwl o'r rhesymau dros amrywiadau yn niferoedd y cysylltiadau ar draws ardaloedd a chynghorwyr.<br><br>Roedd adroddiad gwerthuso Cam 2 hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod hyfforddiant yn fwy hygyrch mewn rhai ardaloedd ac yn llai hygyrch mewn eraill. |
| **Rhagdybiaethau Gweithgarwch i Allbwn** | |
| 8. Mae gan staff DWP wybodaeth ac arbenigedd digonol | Roedd y cynghorwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol gwahanol a daethant â lefelau gwahanol o wybodaeth am fudd-daliadau lles a'r system budd-daliadau i PaCE. Fodd |

| | |
|---|---|
| | bynnag, erbyn gwerthusiad Cam 1, roedd gan y rhan fwyaf o gynghorwyr ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i gefnogi cyfranogwyr.<br><br>Mae sgiliau a gwybodaeth cynghorwyr wedi'u datblygu wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno, drwy hyfforddiant ar themâu penodol ac o ganlyniad i drafodaeth mewn digwyddiadau rhaglen gyfan. Mae dealltwriaeth cynghorwyr o'r Credyd Cynhwysol hefyd wedi datblygu o ganlyniad i hyfforddiant DWP a chael mynediad i gronfa ddata Credyd Cynhwysol DWP. |
| 9. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a chymorth awdurdodau lleol yn fuddiol ac yn hygyrch | Yn gyffredinol, mae cynghorwyr yn gwneud defnydd da o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, er bod dyfnder ac ansawdd y berthynas rhwng PaCE a thimau gwasanaethau cymorth i deuluoedd ehangach yn amrywio o un ardal i'r llall. Mae Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd wedi'u contractio mewn rhai ardaloedd ers dechrau'r rhaglen. |
| 10. Gellir meithrin cysylltiadau â chyflogwyr<br>a. Mae llwybrau cyfredol ar gael drwy DWP<br>b. Nid yw PaCE yn gosod unrhyw faich ychwanegol ar gyflogwyr | Mae cynghorwyr yn gwneud cysylltiadau â chyflogwyr, naill ai'n uniongyrchol, drwy Gynghorwyr Cyflogwyr JCP ac mewn rhai achosion, drwy Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr Cymunedau am Waith a Mwy. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cynghorwyr yn ychwanegu at faich cyflogwyr. |
| 11. Mae buddiolwyr yn cysylltu â'r gwasanaeth cynghori | Mae'r cymorth a gynigir gan gynghorwyr yn cynrychioli craidd gwasanaeth PaCE. Gall amrywiaeth o faterion personol effeithio ar barodrwydd a gallu cyfranogwyr i gymryd rhan yn y rhaglen ac mae rhai yn cymryd rhan lawnach nag eraill. Y grwpiau targed sydd wedi'u tangynrychioli ymhlith cyfranogwyr PaCE yw: pobl o gymunedau ethnig; unigolion â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; dynion â chyfrifoldebau gofal plant; pobl heb ddim cymwysterau neu ddim ond cymwysterau ar lefel isel a siaradwyr Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| 12. Mae rhieni’n awyddus i sicrhau cyflogaeth ac maent yn fodlon cysylltu â PaCE o'u gwirfodd | Mae dadansoddiad o ddata APS a LFS yn dangos nad yw mwyafrif y rhieni economaidd anweithgar yn awyddus i weithio. Fodd bynnag, mae nifer fawr o rieni nad ydynt yn gweithio yn awyddus i gael gwaith, er y gallai eu gallu i wneud hynny fod wedi'i gyfyngu gan gyfrifoldebau gofal plant.<br><br>Mae ymwneud â PaCE yn gwbl wirfoddol ac mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, bod gan y rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen ddiddordeb mewn dod o hyd i waith. Fodd bynnag, gall ffactorau personol ac allanol effeithio ar allu cyfranogwyr i gymryd rhan yn y rhaglen. |
| 13. Mae rhieni am i'w plant gael profiad o ofal-plant | Ychydig iawn o rieni sy'n gwrthwynebu i'w plant gael profiad o ofal plant, er bod y cyfranogwyr yn tueddu i ddefnyddio gofal plant ffurfiol y telir amdano i raddau llai na'r disgwyl. Yn ymarferol, mae'r cyfranogwyr yn defnyddio cyfuniad o feithrinfa/ysgol, gofal plant ffurfiol a theulu/ffrindiau i'w galluogi i gymryd rhan yn PaCE a symud i mewn i waith. Mae gofal plant anffurfiol yn fwy amlwg nag a ragwelwyd pan ddatblygwyd PaCE.<br><br>Er bod cyfranogwyr yn agored yn gyffredinol i’r posibilrwydd o ddefnyddio gofal plant ffurfiol, mae rhieni yn aml yn gyndyn o wneud hynny oherwydd dealltwriaeth wael o natur a chost darpariaeth gofal plant, y cymorth sydd ar gael i helpu i dalu costau gofal plant a sut i fynd ati i drefnu gofal plant. |
| 14. Mae'r gwaith hyrwyddo'n codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu cysylltiadau â PaCE | Rhagwelwyd y byddai strategaeth farchnata yn cael ei rhoi ar waith ac y byddai hyn yn helpu i gyfeirio gweithgareddau a gynlluniwyd i hyrwyddo PaCE. Fodd bynnag, canfu adroddiad gwerthuso Cam 1 nad oedd strategaeth o'r fath wedi'i datblygu a bod gweithgaredd hyrwyddo'r rhaglen wedi bod yn 'gynnil' (gyda sylw cyfyngedig ar y we) ac ad-hoc (gyda chynghorwyr yn cynhyrchu eu deunyddiau hyrwyddo wedi'u teilwra eu hunain). Argymhellwyd bryd hynny y dylid mabwysiadu dull mwy strwythuredig o hyrwyddo PaCE, gan gyfeirio'n benodol at negeseuon hyrwyddo wedi'u targedu, sefydlu gwefan annibynnol ar gyfer PaCE a darparu llif o negeseuon hyrwyddo i sefydliadau partner.<br><br>Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion a wnaed ac mae PaCE yn sicr yn fwy gweladwy ar y we erbyn 2022 nag yr oedd yn 2018. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn parhau i fod yn |

| | |
|---|---|
| | gyfyngedig o ran ei hamlygrwydd ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol ac mae hyn yn debygol o effeithio ar allu'r rhaglen i gyrraedd darpar gyfranogwyr. Mae hyn yn arbennig o wir ymysg rhieni economaidd anweithgar nad ydynt yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â JCP (sy'n atgyfeirio 73 y cant o'r cyfranogwyr at y rhaglen) nac yn ymgysylltu â gwasanaethau lleol eraill. |
| **Rhagdybiaethau o ran Allbwn i Ddeilliannau** | |
| 15. Mae yna ddigon o gyllid i dalu'r costau | Cynyddwyd cyllidebau PaCE ar ddau achlysur, wrth i oes y rhaglen gael ei hymestyn. Yn gyffredinol, roedd y cynnydd mewn cyllid yn gymesur â chyfnod yr estyniad, ond addaswyd llinellau penodol o'r gyllideb yn anghymesur. Yn benodol, gostyngwyd y gyllideb gofal plant yn sylweddol fel rhan o'r ailbroffilio cyntaf, gan adlewyrchu'r galw is na'r disgwyl am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant bryd hynny. Ar yr un pryd, cynyddwyd y gyllideb hyfforddi, gan adlewyrchu'r galw am gyrsiau hwy a mwy costus yn nyddiau cynnar y rhaglen, cyn i'r darparwr a gytundebwyd gan Lywodraeth Cymru roi darpariaeth ar waith.<br><br>Mae gwariant cyffredinol hyd fis Hydref 2021 wedi cyfateb yn fras i'r cyllidebau diwygiedig, ond bu rhywfaint o amrywiad ar lefel yr is-gyllidebau. |
| 16. Gellir goresgyn rhwystrau i gyflogadwyedd | Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn awgrymu mai diffyg argaeledd a/neu gost gofal plant yw'r prif ffactor sy'n rhwystro rhieni rhag symud i mewn i waith. Fodd bynnag, nid argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant, ynddynt eu hunain, yw'r unig rwystrau i gyflogaeth a wynebir gan gyfranogwyr. Mae'r anhawster o ddeall y 'farchnad' gofal plant yn ogystal â phennu beth yn union yw eu hanghenion gofal plant hefyd yn rhwystr i rieni. Mae cynghorwyr yn allweddol i oresgyn yr heriau mewn perthynas â threfniadau gofal plant i lawer o gyfranogwyr, ond mae gofal plant yn dal i fod yn rhwystr i rai.<br><br>I lawer o rieni, gellir goresgyn rhwystrau eraill i gyflogaeth hefyd, er enghraifft drwy hyfforddiant i ennill cymwysterau neu drwy ymgymryd â lleoliadau gwirfoddoli i gael profiad gwaith. Gellir goresgyn cyfyngiadau a arweinir gan unigolion megis diffyg hyder neu bryderon ariannol hefyd gyda chymorth gan PaCE. |

| | |
|---|---|
| | Efallai y bydd angen mwy o gymorth i oresgyn rhai rhwystrau nag y gall PaCE ei ddarparu (e.e., problemau iechyd meddwl) ac mae'n bwysig bod cynghorwyr PaCE yn gallu cyfeirio cyfranogwyr sydd yn y sefyllfaoedd hyn at asiantaethau priodol. |
| 17. Mae yna gynlluniau gweithredu ar gyflogaeth effeithiol | Mae'r term 'cynllun gweithredu ar gyflogaeth' yn gamarweiniol braidd gan mai anaml y mae cyfranogwyr yn sylweddoli fod cynlluniau o'r fath yn bodoli. Mae portffolios y cyfranogwyr yn fwy o gofnod o sgyrsiau na 'chynlluniau gweithredu' fel y cyfryw. |
| 18. Mae cysylltiadau â chyflogwyr yn ddefnyddiol | Prin yw'r rhyngweithio rhwng cynghorwyr a chyflogwyr, ac mae cynghorwyr cyflogaeth DWP ac, yn fwy diweddar swyddogion cyswllt cyflogaeth Cymunedau am Waith a Mwy, yn gweithredu fel cyfryngwyr yn amlach na pheidio. Mae'r cysylltiadau hyn yn ddefnyddiol wrth sefydlu cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd gwaith. Serch hynny, mae cynghorwyr yn dal i ddefnyddio cysylltiadau â chyflogwyr lle y bo'n briodol. |
| 19. Mae cyngor y DWP yn hyrwyddo cyflogadwyedd | Mae JCP yn ffynhonnell atgyfeirio allweddol i PaCE. |
| 20. Mae gofal plant ar gael ac yn hygyrch neu gellir dod o hyd i atebion i ddarparu mynediad | Canfu adolygiad o’r Sector Gofal Plant yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2018 fod tuag un rhan o bump o rieni’n teimlo na allant weithio oherwydd nad oedd gofal plant ar gael neu na allent ei fforddio. Fodd bynnag, canfu camau cynharach y gwerthusiad hwn yn aml iawn nad problemau'n ymwneud ag argaeledd neu fforddiadwyedd oedd yr unig rwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant a wynebir gan rieni. Roedd y rhwystrau a wynebwyd gan gyfranogwyr PaCE yn gyffredinol yn fwy cymhleth ac yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth rhieni o'r 'farchnad' gofal plant a'r cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn cael mynediad at ofal plant.<br><br>Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau clo a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, cyfyngwyd mynediad at ddarpariaeth gofal plant i blant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol. Hyd yn oed pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio, roedd y galw am ofal plant yn dal i fod yn fach ac mae hyn wedi achosi pryderon ynghylch hyfywedd rhai darparwyr gofal plant. |

| | |
|---|---|
| | Dywedwyd bod cost gofal plant wedi cynyddu'n ddiweddar, yn rhannol o ganlyniad i effeithiau'r pandemig ar ddarparwyr gofal plant. Gallai hyn effeithio ar fforddiadwyedd gofal plant yn y dyfodol. |
| 21. Mae awdurdodau lleol yn ymateb i gyngor | Anaml y mae PaCE yn cynnig 'cyngor' i awdurdodau lleol. |
| 22. Mae cyfleoedd am hyfforddiant a phrofiad gwaith ar gael ac yn hygyrch | Nid yw cyfleoedd hyfforddi wedi bod ar gael yn gyfartal nac yn hygyrch ledled Cymru, er bod y sefyllfa wedi gwella wrth i'r darparwr a gytundebwyd gan Lywodraeth Cymru ddod o hyd i is-gontractwyr i gynnig darpariaeth y tu allan i'r ardal yr oedd yn ei gwasanaethu.<br><br>Roedd dyfodiad y pandemig yn golygu nad oedd modd darparu unrhyw hyfforddiant personol am gyfnod a hyd yn oed wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu codi, roedd gallu darparwyr i ddarparu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei grebachu. Roedd hyn yn golygu mai ychydig iawn o gyfranogwyr a gafodd hyfforddiant am rai misoedd.<br><br>Fodd bynnag, arweiniodd y cyfyngiadau a ddeilliodd o'r pandemig at ddatblygu ystod o opsiynau dysgu ar-lein a chyfunol. Er bod y nifer a fanteisiodd ar yr opsiynau hyn wedi bod yn anghyson hyd yn hyn, maent yn debygol o fod yn adnodd defnyddiol yn y dyfodol, gan wneud dysgu'n fwy hygyrch ledled Cymru.<br><br>Mae'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli fel modd o gael profiad gwaith wedi bod yn gyfyngedig, ond cyn y pandemig, mae'n debyg bod hyn i'w briodoli'n fwy i amharodrwydd y cyfranogwyr i ymuno â'r rhaglen nag i ddiffyg cyfleoedd. Fodd bynnag, effeithiodd y pandemig ar wirfoddoli a dim ond yn ddiweddar y mae cyfleoedd wedi cael eu hailgyflwyno. |
| 23. Mae darparwyr gofal plant yn darparu cymorth hyblyg a defnyddiol | Cyn y pandemig, roedd y ddarpariaeth gofal plant yn hyblyg ar y cyfan, er bod bylchau o ran darpariaeth gyda'r nos ac ar benwythnosau a hefyd o ran y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Effeithiwyd yn ddifrifol ar y maes gofal plant gan gyfyngiadau'r pandemig, a bydd yn rhaid aros i weld sut y bydd yn adfer. |

| | |
|---|---|
| 24. Mae yna gyfleoedd i gychwyn cyflogaeth gynaliadwy/sicr | Dangosodd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr fod dros 40,000 o swyddi gwag ledled Cymru yn 2019, a bod swyddi gwag yn amrywio o 2.4 y cant o gyflogaeth yn y Canolbarth i 3.9 y cant ar draws De-orllewin Cymru[52]. Byddai hyn yn awgrymu bod cyfleoedd gwaith ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd cyn y pandemig.<br><br>Fodd bynnag, mae'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn PaCE wedi tueddu i symud ymlaen i swyddi elfennol ar gyflogau isel, gyda llawer yn symud i swyddi eraill o fewn cyfnod byr. Er bod y cyfranogwyr yn fodlon ar eu swyddi at ei gilydd, mae ein canfyddiadau yn amlwg yn codi cwestiynau ynglŷn â chynaliadwyedd a sicrwydd y swyddi y mae cyfranogwyr PaCE yn tueddu i symud ymlaen iddynt.<br><br>Crebachodd nifer y swyddi a oedd ar gael yn ddifrifol yn ystod y pandemig, gan gael effaith ddifrifol iawn ar rai o'r sectorau a ffefrir gan gyfranogwyr PaCE e.e. lletygarwch a manwerthu. Fodd bynnag, mae'r farchnad lafur wedi ehangu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf. |

[52] Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad Cymru

# 7 Casgliadau

### Cyflwyniad

7.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried a yw ymyriadau fel PaCE yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun hinsawdd polisi 2022. Mae tair adran i'r bennod hon, fel a ganlyn:

- crynodeb o effeithiau PaCE
- ystyriaeth o'r newidiadau i'r maes polisi sy'n arbennig o berthnasol i rieni nad ydynt yn gweithio
- trafodaeth am wersi allweddol a ddysgwyd o weithredu PaCE a allai fod yn werth eu hystyried wrth ddylunio unrhyw raglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol.

### Effeithiau PaCE

7.2 Heb os, mae PaCE wedi cyflawni ei brif nod o helpu rhieni nad ydynt yn gweithio i symud i mewn i waith. Rydym yn amcangyfrif, erbyn mis Hydref 2021, bod 1,567 yn fwy o unigolion wedi dod o hyd i waith o ganlyniad i gael eu cefnogi gan PaCE nag a fyddai wedi gwneud hynny fel arall. Mae cymryd rhan yn PaCE hefyd yn debygol o fod wedi cyflymu'r broses o symud mwy fyth o gyfranogwyr i mewn i waith.

7.3 Fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi bod yn llai llwyddiannus nag a ragwelwyd yn wreiddiol o ran helpu cyfranogwyr i ennill cymwysterau/tystysgrifau cysylltiedig â gwaith neu wrth symud pobl ifanc i addysg neu hyfforddiant.

7.4 Mae PaCE wedi cael effeithiau ehangach ar gyfranogwyr a'u teuluoedd, y tu hwnt i ddeilliannau'n ymwneud â gwaith neu gymwysterau. Mae’r rhain wedi cynnwys:

- i gyfranogwyr: mwy o hyder, mwy o ymdeimlad o bwrpas a boddhad, mwy o ymdeimlad o gysylltiad cymdeithasol, cael mwy o arian a darparu model rôl da i'w plant
- i deuluoedd cyfranogwyr: plant yn ffynnu o ganlyniad i brofi gofal plant ffurfiol a mwy o strwythur i'w bywydau.

**Maes polisi sy'n esblygu**

7.5 Mae lleihau tlodi drwy waith wedi bod yn amcan polisi allweddol i lywodraethau olynol y DU a Chymru ac mae’n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r meysydd polisi cyflogadwyedd a gofal plant yng Nghymru wedi newid ers i PaCE ddod i fodolaeth ac mae'r rhaglen yn gweithredu o dan amodau gwahanol iawn nawr o gymharu â'r rhai a oedd yn bodoli pan gafodd ei lansio gyntaf.

7.6 Ar lefel y DU, mae diwygio lles wedi arwain at ddisodli ystod o fudd-daliadau diweithdra a budd-daliadau mewn gwaith a oedd yn bodoli’n flaenorol (gan gynnwys Credyd Treth Plant) gyda'r Credyd Cynhwysol. Mae’r Credyd Cynhwysol wedi’i gynllunio’n bwrpasol i annog hawlwyr budd-daliadau i weithio ac mae ein gwaith maes yn awgrymu ei fod wedi gwneud y broses o bontio i waith yn haws i rieni. Mae’r Credyd Cynhwysol wedi bod yn hanfodol i ychwanegu at incwm cyfranogwyr PaCE sy’n symud i mewn i waith a gellir dadlau bod llai o risg i hawlwyr o ran symud i swyddi gwell neu fwy cynaliadwy dros amser.

7.7 Newid arwyddocaol arall fu cyflwyno’r Cynnig Gofal Plant, a gyflwynwyd fesul cam ledled Cymru rhwng 2017 a 2019. Er bod lle i wella’r cysylltiad rhwng y ddwy raglen, mae’r Cynnig Gofal Plant yn ei hanfod yn ategu PaCE drwy alluogi rhieni plant tair a phedair oed sy’n gweithio i fanteisio ar ofal plant a’i fforddio.

7.8 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn nodi’n glir ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi ac ehangu mynediad at ofal plant am ddim, er enghraifft drwy ehangu cymhwysedd y Cynnig Gofal Plant i rieni sydd ‘ar gyrion gwaith’ ac i’r rhai â phlant dwy oed, a thrwy ehangu'r rhaglen Dechrau’n Deg ar draws Cymru gyfan[53]. Nid oes unrhyw ymrwymiad i ymestyn y ddarpariaeth i rieni â phlant dan ddwy oed, er bod unigolion o'r fath yn cyfrif am tuag un rhan o bump o gyfranogwyr PaCE.

7.9 Mae’r maes cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru hefyd yn esblygu, gyda newidiadau’n debygol o gyflymu wrth i raglenni a ariennir gan yr ESF, gan

[53] Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd Cymunedau am Waith

gynnwys PaCE, ddod i ben. Mae cynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru sydd wedi'i ddiweddaru eisoes yn cyfeirio at gyfuno ymyriadau cyflogadwyedd ac mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda'r DWP er mwyn gwneud y gorau o gymorth cyflogadwyedd. Mae'n nodedig yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, mai ychydig o ymgynghori a fu mewn perthynas â Chynllun Swyddi Llywodraeth y DU (mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19) neu lansiad dilynol rhaglenni Kickstart neu Ailgychwyn DWP. Nid oedd yn ymddangos bod llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i fesurau cyflogadwyedd sydd eisoes ar waith yng Nghymru (gan gynnwys PaCE) ac mae hyn yn amlygu'r her a wynebir wrth gysoni polisïau'r DU a pholisïau Cymru.

**Pwyntiau dysgu allweddol yn sgil gweithredu PaCE**

7.10 Nid ydym yn bwriadu dadlau'r achos dros unrhyw ymyriadau cyflogadwyedd yn y dyfodol yma: mae hyn eisoes wedi'i wneud yn fedrus yn y dogfennau polisi y cyfeirir atynt ym mhennod tri. Yn hytrach, y nod yw tynnu sylw at bwyntiau dysgu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod gwerthusiad PaCE.

7.11 Mae'r rhaglen PaCE yn unigryw ymhlith ymyriadau cyflogadwyedd gan ei bod yn targedu rhieni y mae gofal plant yn brif rwystr iddynt rhag gweithio. Yn ei hanfod, mae'n cydnabod bod **rhieni nad ydynt yn gweithio yn wynebu rhwystrau penodol i waith**, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gost gofal plant ac mae PaCE, felly, yn darparu ar eu cyfer fel grŵp ar wahân. Credwn fod hyn wedi bod yn gryfder ac wedi arwain at berfformiad cryf o ran symud pobl i mewn i waith.

*Elfennau hanfodol cymorth cyflogaeth i rieni*

7.12 Mae ein gwerthusiad yn awgrymu bod model PaCE yn effeithiol mewn sawl ffordd, a byddem yn awgrymu y dylai unrhyw raglen gyflogadwyedd sydd wedi'i hanelu at rieni di-waith gynnwys yr elfennau allweddol a nodir isod. Yn wir, byddai llawer o'r elfennau hyn hefyd yn berthnasol i gefnogi grwpiau eraill o bobl ddi-waith:

- **cymorth hyblyg, personol** gan staff sy'n deall yr anawsterau penodol a wynebir gan rieni (gweler isod) ac sy'n gallu gweithio ar gyflymder sy'n briodol i sefyllfa pob cyfranogwr

- **help i ddeall y system gofal plant**, yr hyn y mae'n ei gynnig, sut y gellir cael gafael ar ofal plant a pha gymorth sydd ar gael i helpu i dalu costau gofal plant
- **help i ddeall y goblygiadau o ran budd-daliadau/credydau** yn sgil symud i mewn i waith, gwneud defnydd o gyfrifiadau gwell-eu-byd ar adegau priodol yn ystod teithiau cyfranogwyr drwy'r rhaglen
- **cyllid ar gyfer gofal plant** lle mae ei angen i ganiatáu cyfranogiad a/neu ddilyniant (gan gynnwys elfen o gyllid 'i mewn i waith' i helpu cyfranogwyr i symud i mewn i waith)
- **hyfforddiant** wedi'i achredu a heb ei achredu (gweler eitem 6.18 mewn perthynas â chymwysterau)
- **cyfleoedd gwirfoddoli** fel ffordd o ddarparu profiad gwaith i gyfranogwyr
- **cyllid ar gyfer mân gostau** sy'n gysylltiedig â chymryd rhan e.e., trwyddedau, gwiriadau DBS ac ati.[54]
- **rhaglen wirfoddol,** gydag unigolion yn rhydd i benderfynu a ydynt yn dymuno ymgysylltu ai peidio, gan roi mwy o ryddid i gyfranogwyr na phe bai'r rhaglen yn orfodol.

7.13 Er bod llai o ddefnydd na'r disgwyl wedi'i wneud o leoliadau cymunedol ar gyfer darparu PaCE, mae gwerth i gynghorwyr gael presenoldeb mewn lleoliadau cymunedol. Mae presenoldeb cymunedol yn helpu i wneud y rhaglen yn fwy gweladwy a hygyrch i gleientiaid posibl nad ydynt yn ymgysylltu â JCP ac mae hefyd yn helpu i gynyddu amlygrwydd y rhaglen ymhlith staff sy'n gweithio ar ymyriadau cyfochrog, yn enwedig Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy.

*Cymhellion rhieni*

7.14 Canfu Camau 1 a 2 ein hymchwil fod rhieni'n fwy agored i ymwneud ag ymyriadau fel PaCE ar adegau penodol ym mywydau eu plant. Er enghraifft, roedd rhieni'n fwy tueddol o gymryd rhan yn PaCE ac i chwilio am waith pan oedd eu plant yn troi'n bump oed ac yn dechrau'r ysgol, a hefyd pan oedd eu

[54] Mae'n nodedig bod Cronfa Cymorth Hyblyg y DWP wedi'i defnyddio'n eithaf helaeth i dalu costau ychwanegol cymryd rhan yn PaCE a/neu symud i mewn i waith. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n ymwneud â hyfforddiant, gofal plant, teithio, offer gwaith ac ati. Defnyddiwyd PaCE i dalu am gostau o'r fath lle nad oedd opsiwn arall.

plant yn troi'n dair oed ac yn gymwys i gael addysg blynyddoedd cynnar am ddim (fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen) ac yn ddiweddarach, addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant am ddim (fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant).

7.15 Mae rhieni hefyd yn cael eu dylanwadu gan ysgogiadau sy'n eu 'gwthio' pan fydd eu plant yn cyrraedd oedrannau penodol. Pan lansiwyd PaCE gyntaf, roedd yn rhaid i rieni a oedd yn hawlio Cymhorthdal Incwm newid i Lwfans Ceisio Gwaith pan oedd eu plentyn ieuengaf yn bump oed, gan ysgogi llawer i chwilio am waith. Mae amodau tebyg sy'n gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol yn gwthio rhieni unigol i gymryd rhan yn y rhaglen, er enghraifft drwy eu gorfodi i gymryd camau gweithredol i chwilio am waith ar ôl i'w plentyn ieuengaf gyrraedd dwy oed, i weithio uchafswm o 16 awr yr wythnos (neu dreulio 16 awr yr wythnos yn chwilio am waith) ar ôl i'w plentyn ieuengaf gyrraedd tair oed ac i weithio uchafswm o 25 awr yr wythnos (neu dreulio 25 awr yr wythnos yn chwilio am waith) ar ôl i'w plentyn ieuengaf droi'n bump oed[55].

7.16 Mae hyn yn awgrymu bod **adegau delfrydol i dargedu rhieni ar gyfer cymorth cyflogadwyedd** h.y., ar y pwyntiau hyn neu yn ystod y cyfnod sy'n arwain atynt.

*Cymhlethdod a chost gofal plant fel rhwystr i gyflogaeth*

7.17 Mae'r Ddamcaniaeth Newid sy'n sail i PaCE yn awgrymu mai diffyg argaeledd a/neu gost gofal plant yw'r prif ffactor sy'n rhwystro rhieni rhag symud i mewn i waith. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae'r rhwystrau sy'n ymwneud â gofal plant yn llawer mwy cymhleth ac i'w priodoli'n fwy i'r ffaith bod rhieni'n ansicr ynghylch sut y mae gofal plant yn gweithio, sut i fynd ati i'w drefnu, faint mae gofal plant yn ei gostio mewn gwirionedd, pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i helpu gyda'r costau hynny a sut i gael mynediad i gefnogaeth o'r fath. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos unigolion sydd ag ychydig o brofiad o ofal plant neu addysg blynyddoedd cynnar, yn nodweddiadol rhieni iau a/neu rieni ag un plentyn.

[55] Canllawiau DWP: Credyd Cynhwysol: gwybodaeth bellach i deuluoedd, Hydref 2020

7.18 Yn ogystal â hyn, mae rhieni yn aml yn poeni am oblygiadau ariannol symud o fudd-daliadau lles i waith. Mae'n hanfodol bod rhieni'n gallu gweld y byddant yn well eu byd yn gweithio, hyd yn oed o ystyried costau gofal plant.

7.19 Mae'n bwysig bod unrhyw raglenni cyflogadwyedd sydd wedi'u hanelu at rieni yn darparu **cymorth wedi'i deilwra i rieni sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn.** Mae wedi bod yn bwysig i gynghorwyr PaCE ddeall y problemau y mae rhieni'n eu hwynebu, yn gyfarwydd â'r sefyllfa gofal plant yn lleol a hefyd deall budd-daliadau lles a budd-daliadau mewn gwaith.

*Oriau a weithiwyd*

7.20 Roedd rheolau Credyd Treth Gwaith a rhaglenni cyflogadwyedd a gefnogir gan yr ESF yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion symud i mewn i swyddi 16 awr neu fwy yr wythnos. Nid oes amod o'r fath yn gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol ac mae **cyfle i gael gwared ar unrhyw isafswm oriau gwaith wrth gynllunio unrhyw raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.** Mae ein gwerthusiad o PaCE wedi dangos bod gweithio llai o oriau yn addas i rai unigolion, yn y tymor byr o leiaf, ac mae'n bosibl y bydd yn gam cyntaf ar yr ysgol swyddi. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn bod y Credyd Cynhwysol yn cymell rhieni sengl (yn enwedig y rhai sy'n rhentu) i leihau eu horiau gwaith i lai na'r 16 awr bresennol a bennir gan y system credydau treth[56].

*Cymwysterau*

7.21 Mae ein hymchwil wedi cadarnhau bod diffyg cymwysterau yn rhwystr sylweddol i gyflogaeth. Mae hyn yn effeithio ar bobl iau yn fwy na phobl hŷn, sy'n fwy tebygol o fod wedi gweithio yn y gorffennol ac a fyddai, felly, yn cael eu hystyried yn 'gymwys drwy brofiad'.

**7.22** Roedd penodau cynharach yn cyfeirio at anghysondeb cynhenid yng nghanllawiau'r rhaglen PaCE lle mae person â lefel isel o sgiliau yn cael ei ddiffinio fel unigolyn heb gymwysterau uwch na lefel 2, ond ar yr un pryd maent yn cyfyngu ar fynediad i hyfforddiant uwchlaw lefel 2. **Mae angen**

[56] Resolution Foundation (2018), Yn ôl mewn credyd? Credyd Cynhwysol ar ôl Cyllideb 2018, tud.4

**ystyried lle mae'r ffin rhwng lefel isel o sgiliau/gyda sgiliau a sut y gellid helpu pobl i groesi'r ffin honno.**

**7.23** Gellir dadlau hefyd y **dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig** o fewn PaCE er mwyn rhoi'r gallu i gyfranogwyr symud ymlaen ar ôl iddynt gael swydd, gan leihau'r siawns o fyw mewn tlodi. Gellid rhoi pwyslais ar gymwysterau mewn meysydd twf, mewn meysydd lle ceir adroddiadau am swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau neu, yn wir, y cymwysterau sydd eu hangen i weithio mewn lleoliadau gofal plant.

*Gwirfoddoli*

**7.24** Cadarnhaodd ein hymchwil hefyd fod diffyg profiad gwaith yn rhwystr i gyflogaeth, unwaith eto, gan effeithio ar bobl iau yn fwy na phobl hŷn. Yn yr un modd, dangoswyd yn glir bod gwirfoddoli fel modd o gael profiad gwaith yn gwella cyfleoedd cyfranogwyr PaCE o symud i mewn i waith. Er bod hyn yn tynnu sylw at briodoldeb gwirfoddoli/lleoliadau gwaith fel rhan o raglen gyflogadwyedd, efallai fod y ffaith mai nifer bach o gyfranogwyr PaCE sy'n manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli yn awgrymu bod **angen rhoi mwy o bwyslais ar wirfoddoli** mewn unrhyw raglen gyflogadwyedd yn y dyfodol.

*Cymorth yn y gwaith*

7.25 Mae camau cynharach y gwerthusiad hwn wedi awgrymu y byddai elfen o gymorth yn y gwaith (y tu hwnt i'r hyn a ddarperir yn anffurfiol eisoes gan rai cynghorwyr) yn ychwanegiad defnyddiol at PaCE[57]. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau:

- y canfyddiad bod cyfranogwyr PaCE fel arfer yn symud ymlaen i swyddi elfennol
- canfyddiadau gwaith ymchwil blaenorol bod gan bobl sy'n symud i swyddi cyflog isel siawns gyfyngedig o gamu ymlaen a'u bod mewn perygl o ddioddef tlodi parhaus mewn gwaith

[57] Cyflwynwyd elfen o gymorth yn y gwaith yn 2020 yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Gwerthuso Profiad a Deilliannau Cam 2.

- cydnabyddiaeth yng nghynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru bod 'angen i Gymru wella ansawdd y gwaith sydd ar gael a sicrhau bod cyfle i bobl symud ymlaen yn eu gwaith'[58].

7.26 Argymhellodd camau cynharach y gwerthusiad hwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar annog cyfranogwyr heb ddim cymwysterau neu'r rhai â lefel isel o gymwysterau, i gymryd rhan mewn hyfforddiant yn hytrach na symud i swyddi sgiliau isel neu ochr yn ochr â hynny. Awgrymwyd hefyd fod **cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith yn cael gwybod am wasanaeth Cymru'n Gweithio fel porth i gymorth pellach** i ddatblygu eu gyrfaoedd a chael mynediad at gymorth ar gyfer hyfforddiant, gan gydnabod na fydd cymhwystra ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol o reidrwydd yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n ddi-waith.

*Systemau monitro'r rhaglen*

7.27 Mae'r systemau monitro a roddwyd ar waith ar gyfer PaCE wedi'u llunio gan ofynion WEFO. Nid ydynt yn cofnodi peth o'r data sy'n ymwneud â diben sylfaenol y rhaglen (helpu rhieni i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant i gyflogaeth) ac nid ydynt, felly, yn caniatáu dealltwriaeth dda o weithrediadau ac effeithiolrwydd rhaglenni.

7.28 **Wrth ddylunio unrhyw raglen gyflogadwyedd yn y dyfodol sydd wedi'i hanelu at rieni, dylid ystyried pwrpas a dyluniad systemau casglu a rheoli data.** Dylid gofyn cwestiynau am anghenion defnyddwyr data amrywiol (e.e., staff rheng flaen, rheolwyr rhaglen, llunwyr polisïau), integreiddio â systemau eraill/ehangach (gan gynnwys, o bosibl, systemau DWP), ac opsiynau meddalwedd posibl ac ati.

*Cymorth integredig*

7.29 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro bod angen integreiddio ymyriadau polisi er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ac osgoi cystadleuaeth ddi-fudd. Mae'r cynllun cyflogadwyedd diwygiedig yn nodi'n glir fwriad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi rhaglenni cyflogadwyedd o dan un model gweithredu o 2023 ymlaen. Mae gwerth i hyn hefyd o ran symleiddio pethau i'r

[58] Ibid., tud.10

rhai sy’n atgyfeirio darpar gleientiaid am gymorth cyflogadwyedd, gan gynnwys hyfforddwyr gwaith JCP.

7.30 Mae'n bwysig bod unrhyw **ymyrraeth cyflogadwyedd yn y dyfodol sydd wedi'i hanelu at rieni hefyd yn cael ei hintegreiddio â'r bensaernïaeth cymorth i deuluoedd ehangach**, yn arbennig y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant, canolfannau plant a hybiau cymunedol. Mae'r gwerthusiad o PaCE wedi dangos nad yw cyflawni hyn bob amser mor syml ag y mae'n ymddangos. Dylai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol hefyd allu **llenwi bylchau mewn cymorth cyllid gofal plant**.

7.31 Mae'r cynllun cyflogadwyedd diwygiedig hefyd yn cydnabod yr angen i gryfhau gweithio ar y cyd â'r DWP. Mae PaCE wedi darparu enghraifft wych o gydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru[59] a DWP[60] sydd wedi galluogi cynghorwyr PaCE i gael mynediad at gofnodion hawlwyr budd-daliadau (gan gynnwys cofnodion Credyd Cynhwysol); hyfforddwyr gwaith DWP; gofod desg yn swyddfeydd JCP; Cronfa Cymorth Hyblyg DWP; a chynghorwyr cyflogaeth DWP. Cyflawnwyd hyn yn bennaf oherwydd bod cynghorwyr PaCE yn cael eu cyflogi gan DWP, er bod eu swyddogaethau o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli gan staff Llywodraeth Cymru. Mae angen ystyried sut y gellid cynnal y **cysylltiadau hyn a lefelau mynediad o fewn unrhyw ymyrraeth cyflogadwyedd yn y dyfodol nad yw'n cynnwys DWP fel 'cyd-fuddiolwr'.**

*Caffael hyfforddiant*

7.32 Yn ei hanfod, roedd y model a fabwysiadwyd ar gyfer dod o hyd i hyfforddiant i gyfranogwyr PaCE yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cytundebu un darparwr i ddarparu hyfforddiant a, lle nad oedd yn gallu darparu’r cyrsiau gofynnol, roedd hwnnw'n is-gontractio darparwyr eraill i gynnal y cyrsiau ar ei ran. Mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru e.e., ReACT, lle y dyfernir grantiau i gyfranogwyr i'w galluogi i 'brynu' hyfforddiant gan ddarparwyr o'u dewis[61].

---

[59] Fel 'buddiolwr arweiniol' yn nhermau ESF

[60] Fel 'cyd-fuddiolwr'

[61] Yn amodol ar gyngor gan Gyrfa Cymru

7.33 Mae'r sioc yn sgil y pandemig wedi gorfodi pobl i ailfeddwl am sut y dylid darparu hyfforddiant, a gwelwyd newid clir i ddulliau dysgu ar-lein a chyfunol.

7.34 Mae’r trefniadau arfaethedig i gyfuno'r rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn gyfle i **ystyried rhinweddau cymharol y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gaffael a darparu hyfforddiant** o fewn ymyriadau cyflogadwyedd prif ffrwd ac ESF presennol er mwyn ymgorffori ymarfer effeithiol yn y rhaglen(ni) newydd.

## Atodiad 1: Dangosyddion ar Lefel Achos a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Dangosyddion Lefel Achos ar gyfer pob un o bedwar gweithrediad y rhaglen PaCE**

| | |
|---|---|
| **Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd** | Camau gweithredu cadarnhaol – menywod |
| | Camau gweithredu cadarnhaol - pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig |
| | Camau gweithredu cadarnhaol - pobl anabl |
| | Gweithgarwch Gwahanu Galwedigaethol |
| | Gweithgarwch i gefnogi siaradwyr y Gymraeg |
| | Darpariaeth gofal plant |
| **Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol** | Gweithgaredd mentora / eiriolaeth |
| | Cynlluniau gwirfoddoli |
| | Gweithgarwch Cyflog Cyfartal |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Datblygu Cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy |
| **Themâu Trawsbynciol Cyffredinol** | Datblygu / defnyddio hyrwyddwyr themâu trawsbynciol |
| | Cyflwyno rhaglen hyfforddi staff ar y themâu trawsbynciol. |

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru iachach |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

**Atodiad 2: Enghreifftiau Cryno o Wybodaeth Reoli Llywodraeth Cymru o'r Ffyrdd yr Aethpwyd i'r Afael â Dangosyddion Lefel Achos y Themâu Trawsbynciol**

| Dangosyddion Lefel Achos y Themâu Trawsbynciol | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd B1 | Dwyrain Cymru B1 | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd B3 | Dwyrain Cymru B3 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (gan gynnwys yr Iaith Gymraeg) | | | | |
| • **Camau gweithredu cadarnhaol – Menywod** | Rhoddwyd cymorth ariannol i fam unigol plentyn anabl i gael trwydded yrru a dysgu sut i yrru.<br><br>Dechreuodd y cyfranogwr weithio gyda chwmni tacsis am 10 awr yr wythnos. | Cafodd menyw sy'n ddioddefwr cam-drin domestig a fu'n ddi-waith am chwe blynedd help i lunio CV a pharatoi ar gyfer cyfweliad ym maes gofal plant.<br><br>Cafodd y cyfranogwr swydd amser llawn. | Cafodd menyw ei hannog gan gynghorydd PaCE i astudio ar gyfer cymhwyster lefel 3 a chofrestru ar gwrs perthnasol, ochr yn ochr â lleoliad gwaith. Helpodd y cynghorydd y cyfranogwr i ddod o hyd i ofal plant hefyd er mwyn iddi allu ymgymryd â lleoliad gwaith a hyfforddiant.<br><br>Cwblhaodd y cyfranogwr hyfforddiant lefel 3 a chael cynnig gwaith am 27.5 awr yr wythnos gan ddarparwr y lleoliad. | Cafodd rhiant sengl benywaidd pryderus heb fawr o hyder gymorth gan gynghorydd PaCE i: nodi ei sgiliau perthnasol; nodi opsiynau gyrfa posibl; llenwi ffurflen gais am swydd; paratoi ar gyfer cyfweliad; a chael cyllid i gefnogi costau gofal plant.<br><br>Cafodd y cyfranogwr swydd, yn gweithio 16 awr yr wythnos i ddechrau, gan gynyddu i 30 awr ar ôl cyfnod o amser. Mae'r cyfranogwr ar fin cael dyrchafiad. |
| • **Camau gweithredu cadarnhaol – Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig** | Mam sengl o gefndir ethnig lleiafrifol a fu'n ddi-waith am chwe blynedd yn cael cymorth i chwilio am swydd gan gynghorydd PaCE. | Cyfranogwr o gefndir ethnig lleiafrifol yn ffoi rhag cam-drin domestig ac yn wynebu trafferthion ariannol. Cafodd gymorth gan gynghorydd i wneud cais am swyddi sy'n berthnasol i'w sgiliau. | Mam sengl o gefndir ethnig lleiafrifol a fu'n ddi-waith ers dros bum mlynedd. Cafodd gymorth gan gynghorydd i sicrhau cyllid ar gyfer gofal plant i'w galluogi i ymgymryd â hyfforddiant. | Cafodd cyfranogwr o gefndir lleiafrifol ethnig sy'n byw mewn hostel help i ddod o hyd i ofal plant a'i ariannu tra bu'n dilyn cwrs Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfranogwr yn cael swydd sydd hefyd yn cynnig cyfle i ennill cymhwyster. | Cafodd y cyfranogwr swydd amser llawn barhaol. | Wedi ennill Cerdyn Llafurwr Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) lefel 1, sicrhaodd swydd yn y maes adeiladu. | Cwblhaodd y cyfranogwr y cwrs ESOL**.** |
| • **Camau gweithredu cadarnhaol - Pobl Anabl** | Cafodd mam sy'n gaeth i'r tŷ, wedi'i pharlysu ac nad oedd ganddi unrhyw hanes gwaith gymorth gan gynghorwyr PaCE i: ysgrifennu CV; llenwi ffurflenni cais am swyddi; deall polisïau recriwtio cyflogwyr; a chael mynediad at ofal plant.<br>Cafodd y cyfranogwr swydd amser llawn. | Cafodd rhiant wedi'i ynysu a chanddo gyflwr iechyd a dim sgiliau TG help gan gynghorydd i nodi cwrs hyfforddi addas a dod o hyd i liniadur.<br>Cwblhaodd y cyfranogwr y cwrs ac mae nawr yn chwilio am waith. | Cafodd mam ifanc sy'n dioddef o nam iechyd meddwl gymorth gan gynghorydd i: nodi ei diddordebau a'i nodau ar gyfer y dyfodol; chwilio am swyddi ar-lein; cwblhau ceisiadau am swyddi; paratoi ar gyfer cyfweliad; a deall opsiynau gofal plant.<br>Mae'r cyfranogwr bellach yn cael ei chyflogi am 34 awr yr wythnos. | Mam ifanc yn dioddef o nam iechyd meddwl ac yn brin o gymwysterau, rhwydwaith cymorth neu fynediad i ofal plant. Helpodd y cynghorydd y cyfranogwr i ganfod hyfforddiant addas a gwnaeth drefniadau gyda'r cyfranogwr a'r hyfforddwr i gefnogi ei chyfranogiad.<br>Cyfranogwr wedi cofrestru ar y cwrs. |
| • **Darpariaeth gofal plant** | Rhiant i chwech o blant rhwng pedair a 15 oed. Wedi bod yn ddi-waith ers 16 mlynedd, yn bennaf oherwydd cyfrifoldebau gofal plant. Cafodd gymorth gan gynghorydd i: ysgrifennu CV; chwilio am swydd; gwneud trefniadau ar gyfer gofal plant a threfnu hawliadau budd-daliadau.<br>Daeth y cyfranogwr yn lanhawr hunangyflogedig. | Cafodd mam am y tro cyntaf nad oedd ganddi unrhyw brofiad o drefnu gofal plant gymorth gan gynghorydd i: ddiweddaru ei CV, chwilio am swydd; manteisio ar hyfforddiant ar-lein; a sicrhau cyllid i helpu gyda chostau gofal plant wrth iddi symud i mewn i waith.<br>Symudodd y cyfranogwr i mewn i waith. | Rhiant unigol sy'n byw mewn ardal wledig heb unrhyw wybodaeth am y cymorth sydd ar gael iddi. Cafodd help gan gynghorydd PaCE i: ddrafftio CV; manteisio ar gymorth gofal plant; a'i chyfeirio at Cyngor ar Bopeth i gael help gyda dyledion.<br>Symudodd y cyfranogwr i mewn i waith. | Cafodd rhiant unigol ifanc gymorth gan gynghorydd i: wneud cais am swyddi; deall opsiynau gofal plant; a sicrhau cyllid i helpu i dalu costau gofal plant.<br>Mae'r cyfranogwr bellach yn gweithio 25 awr yr wythnos. |
| • Gwahanu Galwedigaethol | Cefnogwyd mam sengl a oedd yn dymuno hyfforddi fel | Cafodd mam sengl ifanc a fu'n ddi-waith ers dros flwyddyn | Cafodd mam sengl ifanc a oedd yn ddi-waith ers dros | Mam sengl â graddau TGAU da, heblaw mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (Gweithgaredd Anhraddodiadol) | gyrrwr lori pellter hir i ennill trwyddedau Dosbarth 2 (cerbyd corff anhyblyg) a thrwyddedau cerbyd rhyngwladol.<br><br>Mae'r cyfranogwr yn gweithio tuag at drwydded Dosbarth 1 (cerbyd nwyddau trwm) gyda'r nod o ddod o hyd i waith fel gyrrwr lori. | gymorth i ddilyn hyfforddiant ar-lein mewn gwasanaethau cwsmeriaid.<br><br>Enillodd y cyfranogwr gymhwyster a sicrhaodd swydd fel gyrrwr danfon nwyddau. | flwyddyn gymorth i ddilyn hyfforddiant Awdurdod y Diwydiant Diogelwch Bwyd (SIA).<br><br>Enillodd drwydded SIA a chael swydd ym maes diogelwch fel goruchwyliwr drws. | mathemateg. Trefnodd y cynghorydd i'r cyfranogwr ddilyn cwrs mathemateg, gan ategu hyn gyda chymorth gyda chostau teithio a gofal plant. Fe wnaeth y cynghorydd helpu i drefnu lleoliad profiad gwaith ar gyfer y cyfranogwr hefyd.<br><br>Llwyddodd y cyfranogwr i gael TGAU mewn mathemateg ac ers hynny mae wedi cofrestru ar gwrs peirianneg drydanol, y mae cymorth pellach gyda chostau gofal plant wedi'i drefnu ar ei gyfer. |
| • Gweithgaredd i gefnogi siaradwyr Cymraeg | Cyfranogwr sy'n siarad Cymraeg yr oedd angen profiad galwedigaethol cysylltiedig â'i gradd arni er mwyn dod o hyd i waith. Cynorthwyodd y cynghorydd y cyfranogwr i ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli, gan gyfathrebu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Cafodd y cyfranogwr waith mewn canolfan seibiant i'r anabl. | Roedd cyfranogwr hynod swil a oedd yn siarad Cymraeg wedi bod yn ddi-waith ers pedair blynedd. Gweithiodd y cynghorydd gyda'r cyfranogwr drwy gyfrwng y Gymraeg i feithrin perthynas â hi a'i hannog i fanteisio ar gyfle gwirfoddoli a fyddai hefyd yn golygu gweithio tuag at gymhwyster gofal plant.<br><br>Mae'r cyfranogwr bellach yn gweithio 17.5 awr yr wythnos fel arweinydd meithrinfa. | Mam ifanc Cymraeg ei hiaith a oedd wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol. Rhoddodd y cynghorydd gymorth i'r cyfranogwr drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ei hannog i ymgeisio am swyddi a rhoi gwybod iddi am opsiynau gofal plant. Helpodd y cynghorydd y cyfranogwr i sicrhau cymorth ariannol i dalu am gostau teithio, dillad a gofal plant hefyd.<br><br>Mae'r cyfranogwr bellach yn gweithio 25 awr yr wythnos. | Mae gan PaCE dîm o staff cyflawni a staff canolog sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog wrth ymdrin â gohebiaeth, galwadau ffôn, cyfarfodydd, digwyddiadau a chymorth i gyfranogwyr. Ochr yn ochr â hyn, mae deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo dwyieithog wedi'u diweddaru'n rheolaidd. |

| Trechu Tlodi | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Gweithgaredd mentora / eiriolaeth | Roedd y cyfranogwr wedi bod yn ddi-waith ers dwy flynedd a hanner ac yn dioddef o iselder. Cefnogodd y cynghorydd y cyfranogwr drwy: roi gwybod iddi am y cymorth sydd ar gael; gwneud cyfrifiadau gwell eu byd i'w sicrhau na fyddai ei sicrwydd ariannol yn cael ei beryglu drwy symud i mewn i waith; a helpu i'w pharatoi ar gyfer cyfweliadau swydd.<br><br>Mae'r cyfranogwr wedi cael gwaith gydag oriau hyblyg. | Rhiant unigol i ddau o blant a oedd yn dyheu am fod yn werthwr blodau ond nad oedd yn gwybod sut i gyflawni hyn. Cafodd help gan y cynghorydd i nodi cwrs blodeuwriaeth addas a threfnodd gyllid i dalu am gostau'r cwrs, gliniadur, costau teithio i leoliad y cwrs ac oddi yno a gofal plant, tra roedd yn dilyn y cwrs ac ar gyfer amser astudio ychwanegol. Yna cynorthwyodd y cynghorydd y cyfranogwr i ddod o hyd i gyllid busnes.<br><br>Mae'r cyfranogwr bellach yn werthwr blodau hunangyflogedig. | Mam sengl i ddau o blant, nad oedd wedi gweithio ers tair blynedd. Roedd hi'n byw mewn ardal wledig lle roedd yr opsiynau trafnidiaeth yn gyfyngedig. Cefnogodd y cynghorydd hi drwy: helpu i lunio CV; helpu gyda gweithgareddau chwilio am waith; gwneud cyfrifiadau gwell ei byd; dod o hyd i gyllid i helpu gyda chostau cludiant a dillad; dod o hyd i gyllid i dalu am wersi gyrru; a dod o hyd i gyllid i dalu treth car ar gyfer cerbyd newydd y cyfranogwyr.<br><br>Gall y cyfranogwr yrru nawr ac mae wedi cael swydd amser llawn. Mae hi'n gallu mynd â'i phlant i'r ysgol a gyrru ei hun i'r gwaith heb unrhyw broblem. | Rhiant unigol ifanc nad oedd erioed wedi gweithio, heb CV, profiad o chwilio am swydd nac unrhyw syniad sut i ddod o hyd i ddarpariaeth gofal plant addas.<br><br>Cyfarfu'r cynghorydd â'r cyfranogwr dros gyfnod hir i drafod opsiynau hyfforddiant, addysg a chyflogaeth, ond dim ond pan ddechreuodd ei mab yn yr ysgol yn llawn amser y cododd lefel ymgysylltu'r cyfranogwr. Cefnogodd y cynghorydd y cyfranogwr drwy: helpu i greu CV; anfon manylion am gyfleoedd gwaith; helpu cyfranogwr i wneud cais am swyddi; a threfnu cymorth gofal plant ar ôl ysgol.<br><br>Mae'r cyfranogwr bellach mewn gwaith llawn amser. |
| • Cynlluniau gwirfoddoli | Cyfranogwr dyslecsig gyda thri o blant, nad oedd wedi gweithio ers saith mlynedd. Trefnodd y cynghorydd gyfleoedd gwirfoddoli i helpu'r cyfranogwr i gael profiad gwaith ac i feithrin hyder. | Gŵr gweddw gyda thri o blant rhwng pedair a 18 oed. Roedd wedi gweithio mewn ffatri yn y gorffennol ond nid oedd yn ystyried bod dychwelyd i hynny'n opsiwn realistig, o ystyried ei gyfrifoldebau gofal plant. Helpodd y cynghorydd i drefnu lleoliad gwirfoddoli i roi | Roedd diffyg hyder a phrofiad gan y cyfranogwr ac nid oedd ganddo unrhyw help gyda gofal plant. Helpodd y cynghorydd y cyfranogwr i: ddatblygu CV; a sicrhau lleoliad gwirfoddoli. | Cyfranogwr dyslecsig nad oedd wedi gweithio ers pedair blynedd a chanddi sgiliau cyflogadwyedd cyfyngedig. Cefnogodd y cynghorydd y cyfranogwr i: drefnu cyfeiriad e-bost; datblygu CV; chwilio am swyddi mewn maes a oedd o ddiddordeb iddi; |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r cyfranogwr bellach yn dilyn cwrs coleg ac yn dal i wirfoddoli am ychydig oriau'r wythnos. | blas a phrofiad o amgylchedd gwaith gwahanol i'r cyfranogwr.<br><br>Mae cyfranogwr bellach yn gwirfoddoli ddau ddiwrnod yr wythnos ac yn awyddus i wneud cais am swyddi. | Mae'r cyfranogwr yn dal i wirfoddoli ac mae bellach yn barod i ymgeisio am swyddi. | cynnal ffug gyfweliadau; ymgymryd â hyfforddiant sy'n arwain at ardystiad sy'n gysylltiedig â gwaith; a dod o hyd i leoliad gwaith gwirfoddol.<br><br>Cynigiwyd swydd i'r cyfranogwr gan y sefydliad y bu'n gwirfoddoli iddo. |
| | | | | |
| **Themâu Trawsbynciol Cyffredinol** | | | | |
| • Datblygu / defnyddio Hyrwyddwyr Themâu Trawsbynciol | Cyflawnir rôl Hyrwyddwr Themâu Trawsbynciol gan yr Uwch Reolwr Cyflawni ar gyfer gweithrediad PaCE | | | |
| • Cyflwyno rhaglen hyfforddi staff ar y themâu trawsbynciol (SD) | Cyfuniad o hyfforddiant sefydliadol, gweithdai mewn digwyddiadau blynyddol, sesiynau ar-lein gyda staff, sesiynau cynefino staff, dysgu o astudiaethau achos a dysgu o ddogfennau polisi a gweithdrefnau perthnasol y sefydliad. | | | |

## LLYFRYDDIAETH


Bartley, M., (1994), Diweithdra ac afiechyd: deall y berthynas. Journal of *Epidemiology and Community Health*, 1994: 48:333-337.

Canllawiau DWP (2020), Credyd Cynhwysol: gwybodaeth bellach i deuluoedd

D'Arcy, C. a Finch, D, (2017), Y Dihangfa Fawr? Cyflog isel a dilyniant ym marchnad lafur y DU, y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

Joseph Rowntree (2020), Briff Sefydliad: Tlodi yng Nghymru 2020

Llywodraeth Cymru (2016), Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso'r broses

Llywodraeth Cymru (2017), Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Llywodraeth Cymru (2017), Capasiti Gofal Plant yng Nghymru: Mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl

Llywodraeth Cymru (2018), Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad m Waith (Cam 3: adroddiad ar ganlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg)

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o Raglen Esgyn

Llywodraeth Cymru (2018), Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth: gwerthuso'r broses a'r allbynnau

Llywodraeth Cymru (2019), Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019: Adroddiad Cymru

Llywodraeth Cymru (2019), Arolwg Sgiliau Cyflogwyr:2019

Llywodraeth Cymru (2019), Gwerthusiad o'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd: gwerthusiad canol rhaglen

Llywodraeth Cymru (2019), Strategaeth Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2019

Llywodraeth Cymru (2020), Gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): profiadau a deilliannau

Llywodraeth Cymru (2021), Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 4

Llywodraeth Cymru (2022), Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau

Llywodraeth Cymru (2022), Datganiad Ysgrifenedig: Ehangu Cynnig Gofal Plant Cymru

Llywodraeth Cymru (2022), Gwerthusiad cenedlaethol o Deuluoedd yn Gyntaf: adroddiad blwyddyn 3

Llywodraeth Cymru (2023), Gwerthusiad o'r fenter Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): gwerthuso ar Effaith, Sefyllfaoedd Gwrthffeithiol a Gwerth am Arian

McKnight, A., Stewart, K., Himmelweit, S.M. a Palillo, M. (2016), *Cyflog isel a thlodi mewn gwaith: mesurau ataliol a dulliau ataliol*. Brwsel, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwsiant, Y Comisiwn Ewropeaidd.

What Works Wellbeing (2017), Briff: diweithdra, (ail)gyflogaeth a lles